**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa’r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2013**

**1.00pm TUESDAY, 29 JANUARY 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENRALLT,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**01286 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 22-01-13

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Charles W Jones | Dafydd Meurig |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen | Gethin G. Williams |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Trevor Edwards | Tom Ellis | John Pughe Roberts |
| | Angela Russell | |

**Llais Gwynedd (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | John Brynmor Hughes | Aeron M. Jones |
| | R.J. Wright | |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor /Council Chairman

## RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2012, fel rhai cywir.

(copi yma- papur **gwyn**)

**5. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 – GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLYN Â GWASTRAFF**

a) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid
(copi yma – papur **glas**)

b) Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd a gyflwynwyd i'r Cabinet 22 Ionawr 2013
(copi yma – papur **lelog**)

**6. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 – GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLYN Â YMGYNGHORIAETH**

a) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid
(copi yma – papur **aur**)

b) Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd a gyflwynwyd i'r Cabinet 22 Ionawr 2013
(copi yma – papur **llwyd**)

**7. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 – GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLYN Â PARCIO**

a) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid
(copi yma – papur **gwyn**)

b) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio
(copi yma – papur **glas**)

**8. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2012 (copi yma – papur **melyn**)

**9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2012/13 (copi yma – papur **gwyrdd**)

**10. STRATEGAETH GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDIGAETH A GWRTH-GWGRWOBRWYO CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg
(copi yma – papur **pinc**)

## PWYLLGOR ARCHWILIO 22-11-12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Eddie Dogan, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, John B. Hughes, Aeron Jones, Charles W. Jones, Sion W. Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, R.J. Wright a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Huw Edwards, Selwyn Griffiths, Christopher Hughes, Gethin Williams a Mr John Pollard

<u>Newid yn aelodaeth y pwyllgor</u>
Nododd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Dafydd Meurig yn cymryd lle'r Cynghorydd Dyfrig Jones ar y pwyllgor.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2012, fel rhai cywir.

### 3. YMATEB YR ADRAN ADNODDAU DYNOL I ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL – RECRIWTIO – PROFION HUNANIAETH

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Adroddwyd ar ganlyniad gwaith Archwilio Mewnol ar drefniadau'r Cyngor o gynnal profion hunaniaeth yn ystod y broses recriwtio i'r pwyllgor hwn ar 27 Medi 2012. 'Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad mewnol a osodwyd yng nghategori barn "C". Penderfynodd y pwyllgor wahodd y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r cyfarfod hwn i egluro'r sefyllfa. Gan na allai'r Pennaeth Adnoddau Dynol fynychu'r cyfarfod hwn, mae wedi cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ar 8 Tachwedd 2012 yn ogystal â'r Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, er mwyn egluro'r datblygiadau diweddaraf yn y maes, gan gyflwyno tystiolaeth i arddangos y cynnydd a wnaed i weithredu argymhellion yr archwiliad.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y cynhaliwyd yr archwiliad mewnol fel rhan o gynllun archwilio 2012/13, gyda'r bwriad o sicrhau bod trefniadau

addas ar gyfer cynnal profion hunaniaeth yn bodoli ar gyfer penodiadau newydd i'r Cyngor ac yr adlynir at y trefniadau. Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd –
Yr archwiliwyd sampl o ffeiliau personel swyddogion a benodwyd o'r newydd yn y flwyddyn ariannol 2011/12 a gwelwyd mai lleiafrif ohonynt oedd yn cynnwys tystiolaeth y cynhaliwyd profion hunaniaeth. Yn ogystal, 'roedd y llythyrau a anfonwyd at ymgeiswyr yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth anghywir – Deddf Noddfa a Mewnfudo 1996 yn hytrach na Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.

Yr ymddengys o'r archwiliad na sefydlwyd canllawiau clir i reolwyr na'r swyddogion gweinyddu ffeiliau personel ar y trefniadau, cyfrifoldebau a'r pwysigrwydd o weithredu a chynnal profion hunaniaeth. O ganlyniad i'r diffyg tystiolaeth a chanllawiau, mae'r archwiliwr o'r farn nad oes gan y Cyngor reolaethau priodol mewn lle ar gyfer rheoli'r risg o benodiadau anghyfreithlon.

Rhoddodd y swyddog fanylion am gynllun gweithredu'r adroddiad sy'n cynnwys pump argymhelliad.

Cadarnhaodd y swyddog i'r Pennaeth Adnoddau Dynol gyflwyno dogfennau addasedig i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor sy'n mynd i'r afael â phedwar o'r argymhellion. Y cam nesaf yw dosbarthu'r dogfennau hyn ymysg rheolwyr a goruchwylwyr y Cyngor gyda'r disgwyliad y bydd pob swyddog perthnasol yn gweithredu arnynt. O wneud hynny, fe weithredir ar y pumed argymhelliad yn ogystal.

Nododd ei bod yn fwriad gan Archwilio Mewnol i gynnal archwiliad dilyniant cyn diwedd Rhagfyr 2012 er cynnig sicrwydd annibynnol i'r pwyllgor y gweithredwyd yr argymhellion yn ôl y disgwyl. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor ar 14 Chwefror 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel esboniad o ymateb y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r adroddiad Archwilio Mewnol "Recriwtio – Profion Hunaniaeth".**

**4. YMATEB YR ADRAN RHEOLEIDDIO I ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL – UNED TRWYDDEDU**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg i'r archwiliad hwn dderbyn categori barn "C" gan Archwilio Mewnol. Nododd i'r Pennaeth Adran Rheoleiddio ofyn i Archwilio Mewn gynnwys y mater yn y rhaglen waith oherwydd y newidiadau rheolaethol a oedd i ddigwydd o fewn yr adran. 'Roedd awydd gan yr adran i gael sicrwydd gan Archwilio Mewnol o'r trefniadau rheoli a materion yn ymwneud â thrwyddedu ac 'roedd nifer o welliannau angen eu rhoddi yn eu lle o fewn yr Uned Drwyddedu er mwyn rheoli risgiau a.y. Mae'r Adran Rheoleiddio a'r Uwch Reolwyr yn ymwybodol am y gwelliannau angenrheidiol a chyfeiriodd at yr adroddiad sydd gerbron y pwyllgor yn rhestru'r argymhellion i wella'r gwasanaeth.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd yr amlygwyd, yn dilyn ymddeoliad cyn Reolwr Gwarchod y Cyhoedd (Trwyddedu) yn 2012, a'r dyraniad o'i ddyletswyddau i'r ddau Reolwr Gwarchod y Cyhoedd presennol, nad oedd trefniadau gweinyddol o fewn Uned Trwyddedu Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn addas i bwrpas. I'r perwyl hwn, gofynnwyd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal archwiliad o'r Uned Drwyddedu.

Rhoddodd fanylion am y gweithrediadau sydd i'w ymgymryd gan yr Uned Drwyddedu sy'n cynnwys 26 o argymhellion er ymateb i ofynion yr archwiliad. Mewn perthynas â'r trydydd argymhelliad yn yr adroddiad, nododd y swyddog y cyflwynwyd y Polisi Trwyddedu i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010 pryd y sylwyd bod yna rhai gwallau ynddo. Ers 2010, cyfeiriodd at y newidiadau staffio o fewn yr adran ac hefyd rhai newidiadau i'r Polisi Trwyddedu ac 'roedd yna fwriad i gyflwyno fersiwn diwygiedig o'r polisi i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar 10 Rhagfyr 2012, ond yn anffodus oherwydd graddfa amser a gwaith ar y polisi ni fydd hynny'n bosibl.

Tynnodd aelod sylw bod pedwar o'r argymhellion yn ymwneud â hyfforddiant a gofynnodd beth oedd y sefyllfa erbyn hyn gyda'r hyfforddiant. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd y daeth y materion hyn yn hysbys yn dilyn ymddeoliad y Rheolwr Trwyddedu a throsglwyddo'r dyletswyddau i'r rheolwr newydd. Nododd bod yna drefniadau mwy manwl ar y gweill parthed hyfforddiant a disgwylir y byddant yn weithredol erbyn 1 Ionawr 2013.

Gofynnodd aelod os oes bwriad i gael un system CRB o fewn y Cyngor gan bod angen gwiriad ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyngor nad yw'r cyfeiriad yn yr argymhellion at ffi gweinyddu'r gwiriad CRB yn berthnasol i gwestiwn yr aelod, ond addawodd roddi sylw i'r mater.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod yn ofynnol i lywodraethwyr ysgolion a'r Aelod Cabinet Addysg gael archwiliad CRB ond 'roedd yn fater tu hwnt i reolaeth y Cyngor ar hyn o bryd. 'Roedd yr aelod o'r farn y dylai pob aelod o'r Cyngor gael archwiliad CRB oherwydd eu bod, fel rhan o'u dyletswyddau, yn gorfod ymweld â phobl yn eu cartrefi. Cytunwyd i dynnu sylw'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol at y mater.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y trafodwyd archwiliadau CRB â'r Pennaeth Adnoddau Dynol ac 'roedd yn faes o gryn gonsyrn iddo a chytunwyd i addasu'r Cynllun Archwilio ac fe ymgymerir ag archwiliad mewnol trylwyr ar draws y Cyngor o drefniadau'r awdurdod i ddelio gyda CRB. Y pryder mwyaf ar hyn o bryd yw bod y trefniadau'n anghyson.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y bwriedir cynnal archwiliad dilyniant mewn perthynas â'r Uned Drwyddedu cyn diwedd Mawrth 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel esboniad o ymateb y Pennaeth Adran Rheoleiddio i'r adroddiad Archwilio Mewnol "Uned Trwyddedu".**

**5. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Medi 2012**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Awst a 30 Medi 2012. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 14 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 2 o adroddiadau eraill (memoranda a.y.)

- 5 o adolygiadau grant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. ‘Roedd hyn yn cynnwys dau adroddiad drafft sydd wedi eu rhyddhau a 17 o archwiliadau sy’n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg**

Nododd aelod ei falchder o weld cynnwys adroddiad yr archwiliad.

**Penodiadau Llanw (Addysg)**

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai un o’r argymhellion yn deillio o’r archwiliad yw y dylai’r Adran Addysg adnewyddu gwiriadau CRB yn gyfnodol.

**Cardiau Credyd Barclaycard**

Tynnodd aelod sylw at drafferthion yn ddiweddar gyda un Cyngor Sir yng Ngogledd Cymru lle ‘roedd un o’r penaethiaid wedi defnyddio cerdyn credyd heb awdurdod. Gofynnodd am sicrwydd gan yr Adain Archwilio Mewnol bod y gwariant a wneir gyda’r cardiau hyn yn gyfan gwbl ddilys a bod yna dderbynneb ar gyfer pob eitem. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai nifer cyfyngedig o gardiau sydd ar gael ar hyn o bryd a olygai ei bod yn ymarferol gwirio pob eitem. Nodwyd bod ambell eitem o wariant wedi eu tynnu i’w sylw ac y byddant yn derbyn sylw pellach ganddo mewn archwiliad ar wahân. Er hynny, nododd bod y mwyafrif o wariant ar gerdyn yr Uned Gefnogol, nad yw’n gadael y swyddfa ac fe’i defnyddir er hwylustod ac ar gyfer archebu nwyddau ar lein sy’n galluogi swyddogion i wirio pob eitem ar wahân.

**Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd**

Cyfeiriodd aelod at adroddiad a gyflwynwyd i’r pwyllgor hwn yn ystod y deunaw mis diwethaf ar ganolfannau hamdden y sir lle y nodwyd nad oedd cysondeb rhwng rheolwyr y canolfannau hyn parthed bancio ac i’r archwiliad dderbyn categori barn “C”. Gofynnodd os y rhoddwyd ystyriaeth i hynny pan wnaed yr adroddiad ar yr archwiliad sydd gerbron heddiw. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai prif ffocws yr archwiliad hwn oedd archwilio’r trefniadau i sicrhau bod y rheolwyr ar ddyletswydd yn gweithredu eu cyfrifoldebau mewn ffordd priodol yn absenoldeb y rheolwr. Gallai hyn gynnwys cyfrifoldeb am drefniadau bancio.

**Gweithdai – Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch (Priffyrdd a Bwrdeistrefol)**

Gofynnodd aelod os yw gweithwyr tymhorol yn gorfod cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei bod yn ddisgwyliad ar bob gweithiwr a gyflogir gyda’r Cyngor i ymlynu gyda’r Ddeddf Iechyd a Diogelwch.

**Penodi Contractwyr Peirianyddol/Pontydd**

Mewn perthynas a'r argymhelliad yn yr archwiliad ar pontydd sef "Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefniadau ar gyfer cylchdroi contractwyr. Buasai'n ymarfer da petai'r Uned Adeiladwaith yn cadw cofnod o faint o waith caiff ei benodi i bod contractwr er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gwmni yn derbyn ffafriaeth amhriodol", gofynnodd aelod os y gweithredwyd hyn. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad yw'r gwaith dilyniant wedi ei wneud hyd yn hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Awst i 30 Medi 2012 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**6 . CYLLIDEB REFENIW 2012/13 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2012)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi bod y Cyngor, yn sgîl rhai o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, wedi newid o "drefniadau amgen", sef Bwrdd y Cyngor, i "drefniadau gweithrediaeth", sef Cabinet, ers Mai 2012. Nododd i'r Mesur hefyd newid pwyslais y Pwyllgor Archwilio i graffu rhai materion ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Prif Bwyllgor Craffu, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb chwarterol ac adroddiadau rheolaeth trysorlys, ar fuddsoddi a benthyg. Fe dreialodd aelodau'r pwyllgor y dull hwn o weithredu yn y flwyddyn 2011/12, ac yn yr un modd, cyflwynir yr eitem hon a'r eitemau "Rhaglen Gyfalaf 2012/13 – Adolygiad Diwedd yr Ail Chwarter" a "Rheolaeth Trysorlys 2012/13 – Adolygiad Canol Blwyddyn" fel eitemau "cyllid" o'r fath newydd, yn hytrach nac eitemau "archwilio" traddodiadol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyflwynwyd adroddiadau adolygiad cyllideb chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 24 Gorffennaf 2012 ac mae'r adroddiad adolygiad ail chwarter sydd gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2012/13. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i'r Cabinet ystyried yr adroddiad ar 20 Tachwedd 2012 a chyflwynodd y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

(a) Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol:-
   - (1) Gwasanaethau Canolog – Trosglwyddo cyllideb o (£50k) ar sail unwaith ac am byth er mwyn lleddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar gyllidebau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.
   - (2) Gwasanaeth Plant a Theuluoedd – Gwasanaeth Adnoddau - Trosglwyddo (£50k) o'r tan ddefnydd a welir ar bennawd Gwasanaethau Canolog, a (£200k) o'r tan ddefnydd ar bennawd Pobl Hŷn ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant ar y pennawd Gwasanaeth Adnoddau.
   - (3) Gwasanaeth Oedolion:-
     - (3.1) Gwasanaethau Pobl Hŷn - Trosglwyddo cyllideb o £200k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant ar gyllidebau Plant a Theuluoedd.
     - (3.2) Gwasanaethau Anabledd Corff - Trosglwyddo cyllideb o £250k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar Wasanaethau Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl.

(3.3) Anabledd Dysgu – Trosglwyddo £150k o'r tan ddefnydd o dan bennawd Anabledd Corff ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r gorwariant ar y pennawd Anabledd Dysgu.

(3.4) Iechyd Meddwl – Trosglwyddo £100k o'r tan ddefnydd a welir o dan bennawd Anabledd Corff ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r gorwariant ar y pennawd Iechyd Meddwl.

(b) Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Crynhoad sefyllfa'r adran (gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd) – gofyn i'r Aelod Cabinet Amgylchedd adrodd yn ôl i Gabinet 18 Rhagfyr ar sefyllfa gwastraff yn gyffredinol a'r ymhlygiadau ariannol perthnasol.

(c) Adran Rheoleiddio – Meysydd Parcio – gofyn i'r Aelod Cabinet Amgylchedd gyflwyno'r adroddiad disgwyliedig i gyfarfod Cabinet 18 Rhagfyr ar adolygiad cynhwysfawr o'r holl drefniadau parcio, ynghyd â'r ymhlygiadau o ran incwm perthnasol yn 2013/14.

(ch) Adran Ymgynghoriaeth – yn wyneb y rhagolygon diweddaraf, bod Pennaeth yr Adran yn parhau i adolygu'r sefyllfa ar gyfer eleni, ac ystyried hefyd y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn nesaf, a bod yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn cyflwyno adroddiad manwl a chynhwysfawr i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr, ar fesurau i resymoli'r Adran i allu ymdopi â'r rhagolygon gwaith diweddaraf.

(d) Cyllidebau Corfforaethol – Darpariaeth wrth gefn ar gyfer setliad cyflog 2012/13 – yng ngoleuni'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, a'r buddsoddiad fydd ei angen i sicrhau trawsffurfiad priodol a llwyddiannus, bod y £1,475k yn cael ei gadw wrth gefn am y tro, hyd nes y bydd manylion yr anghenion perthnasol yn fwy clir tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

(dd) Nodi bwriad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i wahodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i gyfarfod 22 Tachwedd y Pwyllgor Archwilio, er mwyn craffu'r adroddiad yn gyffredinol, ynghyd â phenderfyniadau uchod y Cabinet.

(e) Nodi bwriad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i wahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd i gyfarfod 20 Rhagfyr y Pwyllgor Archwilio, er mwyn craffu adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd i'r Cabinet 18 Rhagfyr ar sefyllfa Gwastraff yn gyffredinol, Meysydd Parcio a sefyllfa'r Adran Ymgynghoriaeth, ynghyd â phenderfyniadau Cabinet 18 Rhagfyr ar y materion hynny.

Mewn perthynas â Chasgliadau Gwastraff Masnachol, tynnodd aelod sylw at y gorwariant o £152,000 ac 'roedd o'r farn bod angen mwy o waith monitro ac i'r Aelod Cabinet Amgylchedd roddi sylw i'r mater. Datganodd bryder hefyd am y gorwariant o £510,000 yn yr Adran Ymgynghoriaeth a'r angen i roddi sylw dyladwy i'r mater hwn yn ogystal.

Nododd y Pennaeth Cyllid i'r Aelod Cabinet Adnoddau osod allan y tri maes lle mae pryderon newydd yn bodoli am eu cyllidebau sef gwastraff, parcio ac ymgynghoriaeth a rhoddwyd ymateb cychwynnol yn y Cabinet gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd. Penderfyniad y Cabinet oedd bod y tri Pennaeth Adran perthnasol yn cydweithio gyda'r Aelod Cabinet Amgylchedd i baratoi adroddiadau manwl i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2012 ac yna fe gyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Rhagfyr 2012 pryd y rhoddir cyfle i'r aelodau graffu'r adroddiadau, ynghyd â phenderfyniadau perthnasol y Cabinet a herio'r Aelod Cabinet a'r tri Pennaeth Adran, sef Rheoleiddio, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth.

**PENDERFYNWYD**
**a) Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**
**b) Derbyn penderfyniadau'r Cabinet a chytuno i wahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Penaethiaid Adran Rheoleiddio, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Rhagfyr 2012 er mwyn craffu adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd a gyflwynir i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2012 a phenderfyniadau'r cyfarfod hwnnw, ar sefyllfa gwastraff, meysydd parcio a'r Adran Ymgynghoriaeth.**

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2012/13 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2012)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yr ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ar 20 Tachwedd 2012 a chyflwynodd yr argymhellion canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu –
(a) Derbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2012/13 i 2014/15 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol fel a nodir ym mharagraffau 2.2 i 2.8 o adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau, gan gynnwys datrysiad i sefyllfa cynllun Ysgol yr Hendre.
(b) Nodi bwriad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i wahodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i gyfarfod 22 Tachwedd y Pwyllgor Archwilio, er mwyn craffu'r adroddiad ynghyd â phenderfyniad uchod y Cabinet.

Nododd yr Aelod Cabinet bod y Cyngor wedi llwyddo i ariannu buddsoddiad cyfalaf gwerth £113m yng Ngwynedd tros y tair blynedd nesaf a bod £42m ohono i'w wario yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. 'Roedd hyn yn newyddion calonogol iawn i Wynedd.

Gofynnodd aelod os oes cyfyngiadau ar y gwariant ac a yw'r Cabinet yn fodlon ar y proffiliau gwariant. Mewn ymateb, tynnwyd sylw gan y Pennaeth Cyllid at gymal 3.2 yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at y ffaith na fyddai'r ail-broffilio'n golygu colled mewn grant. Nodwyd hefyd cymal arall (4.2) a ddangosai welliant yn 2012/13 o'i gymharu â 6 mis cyntaf y flwyddyn flaenorol.

Tynnodd aelod sylw at gynllun Ysgol yr Hendre, lle 'roedd ariannu gwreiddiol y cynllun yn cynnwys cyfraniad o £355,000 gan ddatblygwr preifat yn sgîl cytundeb Adran 106 Tyddyn Pandy. Datganodd bryder na fyddai'r cyfraniadau sydd i'w derbyn fesul rhandaliadau yn digwydd tan rhwng 2018/19 a 2023/24 a olygai felly anawsterau i'r Cyngor. Gofynnodd pam nad yw'r Cyngor wedi pwyso ar y datblygwr i dalu'r £1.2m, yn unol â'r cytundeb. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid pe byddai'r Cyngor gyda synnwyr trannoeth ac yn ymwybodol ymlaen llaw o'r trafferthion, byddai dal achos busnes cryf i fynd rhagddo â'r prosiect hwn, ac yn y cyd-destun hwnnw ei fod yn llwyddiannus, ond 'roedd yna nifer o faterion wedi codi a gwersi wedi eu dysgu wrth fynd rhagddo â'r prosiect.

Yn ogystal, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod £1.2m wedi ei gynllunio i ddod o werthu safle'r hen ysgol fel yr eglurwyd yng nghymal 2.4 o'r adroddiad, nid gan y datblygwr.

Cyfeiriodd yr aelod at ddatblygiad Doc Fictoria pryd y gwerthwyd y safle am £1, gyda cytundeb 106 bod y datblygwyr, pan yn cwblhau'r fflatiau i adeiladu 1/3 o'r unedau fel rhai fforddiadwy ar dir arall yn yr ardal. 'Roedd o'r farn bod yna le i oddeutu 30 o dai ar cyn safle Ysgol yr Hendre a fyddai'n dod i berchenogaeth y Cyngor hwn i'w gwerthu efallai i gymdeithas dai. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid nad yw datblygiad Doc Fictoria dan ystyriaeth gan y pwyllgor heddiw, ond addawodd roddi ystyriaeth pellach i'r mater.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefylfa a derbyn penderfyniadau'r Cabinet.**

## 8. RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Adroddodd bod Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf dwywaith y flwyddyn. 'Roedd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn arddel arfer gorau.

Manylodd ar gynnwys yr adroddiad sef yr economi, rheoli benthyciadau, gweithgarwch buddsoddi, cydymffurfio â dangosyddion darbodus a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog. Cyfeiriodd yn benodol at Atodiad A sy'n manylu ar dueddiadau banciau o ran teilyngdod credyd, a rhoddodd ddiweddariad ar sefyllfa'r buddsoddiad ym Manc Heritable, lle disgwylir adfer 88c/£ ac mae 75c/£ eisoes wedi ei adennill.

Mewn perthynas â benthyciadau busnes i gwmniau lleol, cyfeiriodd aelod at fenthyciad a gafodd cwmni dodrefn yng Nghaernarfon gan y Cyngor a gofynnodd beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod y cwmni erbyn hyn wedi ad-dalu'r cyfan o'r benthyciad yn ôl i'r Cyngor.

'Roedd yr aelod o'r farn y dylai'r Cyngor gefnogi mwy o fusnesau yng Ngwynedd drwy gynnig benthyciadau tymor byr. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y neilltuwyd £3m ar gyfer hynny. Sefydlwyd panel gan gynnwys yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Aelod Cabinet Economi i ystyried y ceisiadau a dderbynnir a bod sawl benthyciad eisoes wedi ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 9. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14

Atgoffodd y Pennaeth Cyllid yr aelodau o'r hyfforddiant gan Gwmni Arlingclose ar y mater uchod ar 29 Ionawr 2013 am 2.00 o'r gloch yn Ystafell Glyder Fawr, Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon.

Nododd bod pedwar aelod eisoes wedi cadarnhau eu diddordeb, ond yr hoffai gael gwybodaeth ymlaen llaw gan weddill yr aelodau hynny sy'n dymuno mynychu'r hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2012/13.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 2 Tachwedd 2012 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 34 |
| Crewyd papurau gwaith | 2 |
| Gwaith maes ar y gweill | 14 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 8 |
| Adroddiad Terfynol | 40 |
| **Cyfanswm** | **98** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 3 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2012/13 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2013. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 2 Tachwedd 2012 yn 40.8% ac allan o'r 98 archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2012/13 'roedd 40 wedi eu rhyddhau'n derfynol. Er mwyn cyfarfod â'r proffil chwarterol, bydd angen cau neu ryddhau adroddiad terfynol 19 archwiliad arall erbyn diwedd Rhagfyr 2012, sef 59 allan o 98. Disgwylir y bydd hyn wedi ei wireddu.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg esboniad o'r addasiadau a wnaed i'r cynllun archwilio mewnol ers y cyfarfod blaenorol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2012/13.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.00

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **29 IONAWR 2013** |
| TEITL: | **ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 - GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLŶN Â GWASTRAFF** |
| PWRPAS: | **CYFLWYNO GWYBODAETH YCHWANEGOL I'W GRAFFU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO YNGHYLCH RISGIAU YNG NGHYSWLLT CYLLIDEBAU'R CYNGOR A'I ADRANNAU, A PHENDERFYNIADAU PERTHNASOL Y CABINET** |
| GWEITHREDIAD: | **CRAFFU'R WYBODAETH YCHWANEGOL YN DILYN GWEITHREDIAD YR ADRAN, Y CABINET A'R AELOD CABINET PERTHNASOL** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID A GWYN MORRIS JONES, PENNAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** |
| AELODAU CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS A CYNGHORYDD GARETH ROBERTS** |

**1.** Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio 22 Tachwedd 2012 ar Adolygiad Ail Chwarter o Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2012/13, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

**2.** Ymysg y cyllidebau roedd yn destun pryder, roedd Gwastraff, Parcio a'r Uned Ymgynghoriaeth.

**3.** Mewn perthynas â chyllideb yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff, adroddwyd fel y nodir ar y tudalennau i ddilyn.

**4.** Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio 22/11/12 i wahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Pwyllgor Archwilio nesaf er mwyn craffu'r adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd i'r Cabinet ar 22/01/13 a phenderfyniadau'r cyfarfod hwnnw, ar sefyllfa gwastraff.

**5.** Cyfrifoldeb y Cabinet, wedi'i ddirprwyo'n achlysurol i'r Aelod Cabinet perthnasol, yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. sicrhau atebolrwydd swyddogion sy'n gyfrifol am reoli cyllidebau, cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol, ayb).

Mae’r adroddiad dilynol wedi’i gyflwyno gan yr Aelod Cabinet perthnasol, y Cynghorydd Gareth W Roberts, fydd yn bresennol yng nghyfarfod 29 Ionawr y Pwyllgor Archwilio er mwyn egluro’r gweithrediad perthnasol ac ymateb i ymholiadau’r aelodau, ynghyd â’r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Mr Gwyn Morris Jones.

**6.** Gyda’i rôl fel rhan allweddol o’r gyfundrefn llywodraethu corfforaethol, mae’r Pwyllgor Archwilio yn annibynnol o gorff gweithredol y Cyngor.

Dylai’r Pwyllgor Archwilio geisio sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol a chefnogi’r swyddog cyllid statudol trwy graffu a herio penderfyniadau’r Cabinet a’u harweinyddiaeth mewn perthynas â threfniadau rheolaethol yr adrannau.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaredu Gwastraff | **3,857** | **3,869** | **4,034** | **165** | **0** | **165** |
| Safleoedd Gwaredu | **1,840** | **1,879** | **2,102** | **223** | **0** | **223** |
| Safleoedd Trosglwyddo a Thrin | **951** | **929** | **788** | **(141)** | **0** | **(141)** |
| Safleoedd Mwynderau | **890** | **864** | **764** | **(100)** | **0** | **(100)** |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | **3,949** | **3,994** | **3,960** | **(34)** | **0** | **(34)** |
| Casgliadau Gwastraff Masnachol | **207** | **223** | **375** | **152** | **0** | **152** |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff** | **11,694** | **11,758** | **12,023** | **265** | **0** | **265** |
| **Tiroedd Agored** | **825** | **805** | **753** | **(52)** | **0** | **(52)** |
| **Amlosgfa** | **(85)** | **(87)** | **(120)** | **(33)** | **0** | **(33)** |
| **Eraill** | **15,245** | **14,907** | **14,882** | **(25)** | **0** | **(25)** |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **27,679** | **27,383** | **27,538** | **155** | **0** | **155** |

**Argymhelliad:-** Gofynnir i'r Aelod Cabinet Amgylchedd adrodd yn ôl i'r Cabinet ar sefyllfa gwastraff yn gyffredinol a'r ymghlygiadau ariannol perthnasol.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Gwaredu Gwastraff**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,857** | **3,869** | **4,034** | **165** | | **165** |

**Eglurhad:-** Costau £121k uwch o ganlyniad i dirlenwi fwy o dunnelli na'r targed gwreiddiol, ynghyd â chostau uwch o £44k gwaredu coed a gwastraff gwyrdd.

---

**Maes:-** **Safleoedd Gwaredu**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,840** | **1,879** | **2,102** | **223** | **0** | **223** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir gorwariant o £223k, sy'n gynnydd o £168k yn y sefyllfa gorwariant ers yr adolygiad chwarter cyntaf, yn cynnwys costau cyflogaeth a chostau fflyd uwch o £123k i ddelio efo'r cynnydd mewn gwastraff yn Ffridd Rasus, ond hefyd tanwariant o (£29k) ar gostau eiddo a gwasanaethau a chyflenwadau a chynnydd mewn incwm gwastraff masnachol o (£61k). Yn safle Llwyn Isaf, mae gorwariant o £80k ar elifiant o ganlyniad i'r tywydd gwlyb a gafwyd dros yr haf, ynghyd â gorwariant o £28k ar nifer o benawdau, gan gynnwys costau fforddfraint ychwanegol a chostau thrafnidiaeth. Hefyd, bu gostyngiad incwm £77k o freindaliadau nwyon mewn perthynas â safle Cilgwyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

**Maes:-** **Safleoedd Trosglwyddo a Thrin**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **951** | **929** | **788** | **(141)** | | **(141)** |

**Eglurhad:-** Sefyllfa tanwariant yn bennaf o ganlyniad i'r oediad yn agor 'GwyriAD', sef y safle trin bwyd yn Llwyn Isaf (£173k), ond costau uwch o £44k i Antur Waunfawr.
Hefyd, mae tanwariant o (£38k) mewn costau gweithredol yng nghanolfan Caergylchu, arbedion o (£11k) mewn costau yn dilyn oediad mewn agor safle trosglwyddo Coed Ffridd Aron ar amser, ond costau ychwanegol o £37k o ganlyniad i ddiffyg capasiti ar safle Ffridd Rasus am gyfnod, oedd yn gorfodi cludo gwastraff oddi allan i'r ardal.

---

**Maes:-** **Safleoedd Mwynderau**

| Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **890** | **864** | **764** | **(100)** | | **(100)** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir tanwariant ar y pennawd yma am y flwyddyn, oherwydd arbedion o ganlyniad i'r oediad o ddau fis i agor safle mwynderau Blaenau Ffestiniog, ynghyd ag arbedion trosiant staff unwaith ac am byth yn y gwasanaeth.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Casglu Gwastraff ac Ailgylchu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **3,949** | **3,994** | **3,960** | **(34)** | | **(34)** |

**Eglurhad:-** Gwelliant o (£78k) o'r sefyllfa gorwariant o £44k a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf, sy'n adlewyrchu tanwariant (£163k) ar gasgliadau ailgylchu o ganlyniad i oediad mewn cyflwyno rhan o'r gwasanaeth, ond hefyd gwariant net uwch o £129k ar sawl pennawd yn cynnwys costau gweithredol uwch, a lleihad mewn derbyniad incwm grant.

---

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Casgliadau Gwastraff Masnachol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **207** | **223** | **375** | **152** | | **152** |

**Eglurhad:-** Rhagwelir gorwariant ar y gwasanaeth yma, yn cynnwys costau £76k uwch ar waredu a thirlenwi, a gostyngiad mewn incwm o £110k gan fasnachwyr.
Mae'r Adran yn parhau i geisio lleihau costau gweithredol, drwy resymoli cylchdeithiau, ac hefyd denu contractau newydd.

**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
**22 Ionawr, 2013**

**Aelod Cabinet**: Cynghorydd W Gareth Roberts

**Pwnc:** Y Maes Gwastraff – Materion yn codi o'r Adolygiad Cyllideb Ail Chwarter

**Swyddog Cyswllt:** Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

---

**Y Penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

I ystyried yr hyn argymhellir ar gyfer ymateb i gor a tanwariant ragwelir yn y maes gwastraff, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

---

**Barn yr Aelod Lleol**

Ddim yn berthnasol.

---

**1 Gwaredu Gwastraff (gorwariant £165k)**

Mae'r Adran yn cynhyrchu tafluniad (cyn cychwyn y flwyddyn ariannol) o beth ddisgwylir o ran tunelledd y gwastraff bwrdeistrefol fydd angen ei dirlenwi. Mae hyn i bwrpas sicrhau cadw oddi fewn i'r Lwfans Tirlenwi a chael amcangyfrif o'r cyfanswm Treth Tirlenwi am y flwyddyn.

Ar fonitro wedi 6 mis o'r flwyddyn, mae mwy wedi ei dirlenwi na raglenwyd sy'n achosi costau uwch o £121k. Mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i:

- oediad mewn cyflwyno gwasanaeth casglu bwyd wythnosol oherwydd gofynion caffael cerbydau i'r pwrpas
- oediad mewn cael trigolion i ddygymod/arfer a'r gwasanaeth newydd.

***Gall y tafluniad gorwariant newid ar gynyddu ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio yn ystod 6 mis olaf o'r flwyddyn. Bydd angen i'r Cyngor benderfynu ar pa opsiwn i'w weithredu o ran cyfyngu ar y bin gweddilliol (gwyrdd) ar ddechrau'r flwyddyn nesaf i bwrpas lleihau ar dirlenwi.***

Mae £44k o gostau uwch oherwydd gwaredu coed. ‘Roedd costau gwaredu coed eleni dan reolaeth gan fod trefniant mewn lle gyda chwmni biomass i gymeryd y gwastraff coed. Yn anffodus, derbyniwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru nad oedd gwaredu gwastraff drwy’r dechnoleg biomass yn cyfrif tuag at ffigyrau/targedau ailgylchu. Yr ydym felly wedi newid (ers 1 Hydref) i drefniant ailgylchu’r coed sydd yn llawer iawn fwy costus.

**2 Safleoedd Gwaredu (gorwariant £223k)**

Mae gofynion amgylcheddol llawer uwch yn achosi cynnydd mewn costau gweithredu safleoedd tirlenwi. Er bod safle tirlenwi Llwyn Isaf wedi ei gau ynghynt na raglenwyd, mae costau ymdrin trwytholch y safle yn parhau ac wedi profi’n uchel eleni oherwydd y tywydd gwlyb eithriadol.

Mae holl wastraff y Sir i’w dirlenwi, yn mynd i Safle Ffridd Rasus, Harlech ac mae costau gweithredu’r safle wedi cynyddu o ganlyniad.

***Mae ymdrechion yn cael ei wneud i ostwng costau llafur a fflyd yn y safle. O ran Ffridd Rasus, mae’r Cabinet yn ymwybodol bod ystyriaeth o ddyfodol y safle ar gyfer gwaredu yn cael ei wneud ar hyn o bryd (adroddiad i’r Cabinet Anffurfiol: 28 Tachwedd, 2012).***

**3 Maes Gwastraff (tanwariant £141k)**

Oediad mewn agor safle ymdrin â bwyd (GwyriAD) sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant hwn. Mae GwyriAD ar raglen i fod yn weithredol Medi 2013.

**4 Safleoedd Mwynderau (tanwariant £100k)**

Oediad mewn agor safle Blaenau Ffestiniog sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant hwn. Safle Blaenau Ffestiniog yn weithredol Gorffennaf, 2012.

**5 Casglu Gwastraff ac Ailgylchu (tanwariant £34k)**

Oediad mewn cyflwyno rhan o’r gwasanaeth sydd yn bennaf gyfrifol am y tanwariant hwn.

**6 Casgliadau Gwastraff Masnachol (gorwariant £152k)**

Mae’r gwasanaeth hwn ynghanol trawsnewid sylweddol gyda chyflwyno gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu a bwyd yn ychwanegol i gasglu gweddilliol a gwydr. ‘Roedd bwriad cael y gwasanaeth yn agosach i fod yn hunangynhaliol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, cyn newid i sefyllfa blwyddyn nesaf lle bydd arbedion o £50k o’r gwasanaeth yn cyfrannu tuag at Strategaeth Arbedion y Cyngor.

Yn bennaf, mae'r gwasanaeth hwn wedi dioddef colled o £90k mewn incwm disgwyliedig eleni, oherwydd busnesau yn peidio bodoli (oherwydd y sefyllfa economaidd) a rhai busnesau yn mynd at ddarparwr arall i'w gwasanaethu.

Oherwydd yr oedi mewn cyflwyno'r gwasanaeth newydd (oherwydd rheolau pwrcasu fflyd) a bod masnachwyr yn araf ddygymod a'r newid, mae mwy na raglenwyd yn cael ei dirlenwi o'r gwasanaeth (£76k o gostau uwch).

Mae Tîm Tasg mewn bodolaeth sy'n gyfrifol am arwain y trawsnewid i'r gwasanaeth hwn. Mae ymdrechion sylweddol yn cael ei wneud i leihau'r gorwariant ragwelir eleni e.e.

- lleihad mewn costau llafur – mae 8 swydd eisioes wedi eu diddymu o'r gwasanaeth
- lleihad mewn costau fflyd – rhesymoli cylchdeithiau
- ymgyrchoedd cynyddu'r hyn gesglir o fwyd a deunyddiau ailgylchu – i bwrpas lleihau costau tirlenwi. (Ailgylchu eleni wedi codi o 11% i 25.11% yn y 6 mis cyntaf)
- sicrhau cleientiaid.

***Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu i bwrpas lleihau yn sylweddol neu ddileu'r gorwariant eleni ynghyd â sicrhau arbedion ar gyfer y Strategaeth Arbedion flwyddyn nesaf. Mae yn bennaf i'w wneud gyda lleihau costau gwaredu a chynyddu ailgylchu. Mae'n fwriad cyflwyno ffioedd gwahaniaethol yn 2013/14 i bwrpas cynyddu ailgylchu/compostio gwastraff masnachol a lleihau ar hyn dirlenwir.***

---

**Barn y swyddogion**

**Y Prif Weithredwr:**

**'**Diau y bydd y Cabinet am bwyso am sicrwydd y Pennaeth, er y bydd elfennau o orwariant yn parhau, y bydd, yn ol ei arfer yn medru maintoli'r Gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd angen hefyd pwyso a mesur i ba raddau mae problemau eleni yn debygol o gael eu datrus neu eu hail-adrodd yn y blynddoedd i ddod'.

**Y Swyddog Monitro:**

'Gofynnwyd am yr adroddiad yma yn y Cabinet ar 20 Tachwedd 2012 er mwyn i'r aelodau fodloni eu hunain ar ymhlygiadau ariannol sefyllfa gwastraff yn gyffredinol. Nid oes gennyf sylw o safbwynt priodoldeb'.

**Y Pennaeth Cyllid:**

‘Fel adroddwyd i’r Cabinet yn Tachwedd, mae gorwariant gwaelodol sylweddol o £540k o fewn y maes gwastraff eleni, sy’n cael ei leddfu’n rhannol gan lithriadau gwahanol gynlluniau yn y flwyddyn, am amryw o resymau, sy’n gadael sefyllfa gorwariant net o £265k.

Ymddengys bod datrysiad i orwariant rhai o’r cynlluniau yn ddibynnol ar benderfyniadau sydd eisoes wedi eu gwneud a phenderfyniadau pellach sydd angen eu gwneud, ond mae’n debyg bydd cyfran o’r gorwariant yn parhau am ran o’r flwyddyn nesaf o leiaf.

Mae sawl strategaeth teg gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, ond rhai ohonynt yn ddatrysiadau hirdymor, felly bydd disgwyl i’r Adran ariannu’r gorwariant o danwariant gwasanaethau eraill, neu ffynonellau eraill er mwyn cadw oddi fewn i’r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2012-13.

Rhagwelir y bydd cyfran o’r tanwariant yn parhau yn rhannol yn 2013-14 a bydd yn gymorth i leddfu’r gorwariant a nodir uchod, ond bydd angen monitro datblygiad unrhyw ddatrysiad i sicrhau bod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cadw oddi fewn i’r gyllideb eto’r flwyddyn nesaf.’

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **29 IONAWR 2013** |
| TEITL: | **ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 - GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLŶN Â YMGYNGHORIAETH** |
| PWRPAS: | **CYFLWYNO GWYBODAETH YCHWANEGOL I'W GRAFFU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO YNGHYLCH RISGIAU YNG NGHYSWLLT CYLLIDEBAU'R CYNGOR A'I ADRANNAU, A PHENDERFYNIADAU PERTHNASOL Y CABINET** |
| GWEITHREDIAD: | **CRAFFU'R WYBODAETH YCHWANEGOL YN DILYN GWEITHREDIAD YR ADRAN, Y CABINET A'R AELOD CABINET PERTHNASOL** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID A HUW WILLIAMS, PENNAETH YMGYNGHORIAETH** |
| AELODAU CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS A CYNGHORYDD GARETH ROBERTS** |

**1.** Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio 22 Tachwedd 2012 ar Adolygiad Ail Chwarter o Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2012/13, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

**2.** Ymysg y cyllidebau roedd yn destun pryder, roedd Gwastraff, Parcio a'r Uned Ymgynghoriaeth.

**3.** Mewn perthynas â chyllideb yr Uned Ymgynghoriaeth, adroddwyd fel y nodir ar y tudalennau i ddilyn.

**4.** Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio 22/11/12 i wahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth i'r Pwyllgor Archwilio nesaf er mwyn craffu'r adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd i'r Cabinet ar 22/01/13 a phenderfyniadau'r cyfarfod hwnnw, ar sefyllfa'r Adran Ymgynghoriaeth.

**5.** Cyfrifoldeb y Cabinet, wedi'i ddirprwyo'n achlysurol i'r Aelod Cabinet perthnasol, yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. sicrhau atebolrwydd swyddogion sy'n gyfrifol am reoli cyllidebau, cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol, ayb).

Mae'r adroddiad dilynol wedi'i gyflwyno gan yr Aelod Cabinet perthnasol, y Cynghorydd Gareth W Roberts, fydd yn bresennol yng nghyfarfod 29 Ionawr y Pwyllgor Archwilio er mwyn egluro'r gweithrediad perthnasol ac ymateb i ymholiadau'r aelodau, ynghyd â'r Pennaeth Ymgynghoriaeth, Mr Huw Williams.

**6.** Gyda'i rôl fel rhan allweddol o'r gyfundrefn llywodraethu corfforaethol, mae'r Pwyllgor Archwilio yn annibynnol o gorff gweithredol y Cyngor.

Dylai'r Pwyllgor Archwilio geisio sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol a chefnogi'r swyddog cyllid statudol trwy graffu a herio penderfyniadau'r Cabinet a'u harweinyddiaeth mewn perthynas â threfniadau rheolaethol yr adrannau.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Ymgynghoriaeth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(526)** | **(452)** | **58** | **510** | | **510** |

**Eglurhad:-** Mae'r rhagolygon diweddaraf, sef sefyllfa gorwariant o £510k yn adlewyrchu gostyngiad difrifol yn y lefel incwm ffioedd mae'r Adran wedi ei ddenu hyd yma eleni, ac o'r wybodaeth sydd ar gael, y lefel a amcangyfrifir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y lefel gwaith a ddisgwylwyd gan y Cynulliad, gwaith gwelliannau ffyrdd gan y Cyngor, gwaith allanol fel, er enghraifft, gwaith ffyrdd perthnasol i gynllun 'Wylfa B' a gwaith statudol ychwanegol angenrheidiol fel, er enghraifft, Deddf Dwr a Llifogydd. Mae'r Adran eisoes yn adolygu ei Cynllun Busnes i leihau costau gweithredol, gan gynnwys, y lefel staff perthnasol i gwrdd â'r lefel gwaith cyfredol a disgwyliedig, a cheisio denu contractau a chomisiynau newydd, fyddai yn dod ag incwm ffioedd ychwanegol i'r Adran. Mae'r broses yma wrth gwrs yn cyflwyno her ychwanegol, ac yn adlewyrchu pwysigrwydd o geisio cydbwysedd rhwng colled staff hefo sgiliau arbennig, a'r gallu wedyn i ddenu a chyflawni gwaith newydd. Fe nodir fod yr Adran hefo darpariaeth wrth gefn ar gyfer costau diswyddo a chronfa tanwariant blaenorol adrannol o £216k. Hyd yma, ymddengys na tydi'r rhagolygon perthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2013/14, ddim yn edrych yn addawol chwaith.

**Argymhelliad:-** Yn yr amgylchiadau, argymhellir fod Pennaeth yr Adran Ymgynghoriaeth yn parhau i adolygu'r sefyllfa ar gyfer eleni, ac ystyried hefyd y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn nesaf, a bod yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn cyflwyno adroddiad fanwl a chynhwysfawr i'r Cabinet 18 Rhagfyr, ar fesurau i resymoli'r Adran i allu ymdopi â'r rhagolygon gwaith diweddaraf.

**ADRODDIAD I'R CABINET FFURFIOL**
**22 Ionawr 2013**

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd W Gareth Roberts

**Pwnc:** Gorwariant Ymgynghoriaeth Gwynedd

**Swyddog cyswllt:** Huw Williams , Pennaeth Gwasanaeth Ymgynghoriaeth

---

## Y penderfyniad a geisir

1 Yn wyneb y pryderon a nodir yn yr adroddiad yma, comisiynu gwaith gan y Pennaeth Cyllid i ymchwilio i drefniadau rheolaeth ariannol sydd gan Ymgynghoriaeth Gwynedd, tra ar yr un pryd yn sefydlu ar y cyd gyda Phennaeth Ymgynghoriaeth y dystiolaeth o beth yn union sydd wedi digwydd yn 2012/13 a beth yw'r sefyllfa debygol felly ar gyfer 2013/14.

2 Gofyn i'r Pennaeth Cyllid sicrhau fod ei adroddiad ar gael cyn diwedd y flwyddyn ariannol yma er mwyn sicrhau ein bod yn dechrau 2013/14 ar y droed iawn.

3 Yn sgil canlyniadau'r ymchwil yma, a gweithredu ar y casgliadau, fy mod i wedyn yn arwain ail ddarn y gwaith o sefydlu model newydd fydd yn gynaladwy ac yn ymatebol i'r sefyllfa econonomaidd.

Nid ystyriaethau ariannol yn unig ddylid ganolbwyntio arnynt ond mae'n rhaid cael hyn i'n galluogi i roi ystyriaeth i elfennau eraill y byddwn yn dymuno eu cefnogi megis swyddi os yn briodol.

## Barn yr aelod lleol

*Nid yw'n fater lleol.*

---

## Cyflwyniad

1. Yn dilyn adrodd i'r Cabinet ar yr 20fed o Dachwedd ble mynegwyd pryder am berfformiad ariannol Ymgynghoriaeth Gwynedd eleni a'i hyfywder i'r dyfodol, cytunwyd y byddwn yn adrodd i'r Cabinet ar ol cael cyfle i ymchwilio i'r rhesymau sydd wedi arwain at hyn.

2. Efo busnes a trosiant o £4.5m 'roedd yr amserlen yn heriol o ystyried gwyliau'r Nadolig a hoffwn ddiolch i'r swyddogion am eu cydweithrediad parod.

3. Wedi ystyriaeth bellach a thrafodaeth efo swyddogion cytunwyd y dylid rhannu'r gwaith yn ddau sef y tymor byr a chanolig a wedyn yr hirdymor.

4. Adroddaf felly ar y rhan gyntaf o'r gwaith.

5. Wrth edrych ar y sefyllfa daeth yn amlwg nad oedd sefydlu'r rhesymau dros broblemau eleni na sefydlu'r union sefyllfa a ddisgwylir eleni yn broses syml ac mae hyn wedi codi cwestiynau ynglyn a threfniadau busnes y gwasanaeth.

6. Yn sgil hyn felly dwi wedi cytuno gyda'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion cyllidol (y Cynghorydd Peredur Jenkins) y dylid cynnig yr argymhellion a nodir uchod i'r Cabinet.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

7. Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio nad yw'r Ymgynghoriaeth yn fwrn gyllidol ar y Cyngor ac er ei fod yn yn methu cwrdd a'i darged elw eleni, dros y blynyddoedd mae wedi cyfranu yn bositif i'r Cyngor.

8. Gellir dadlau wrth gwrs y byddai hyn wedi gallu bod yn well efo rheolaeth ariannol mwy cadarn ond ni welais dystiolaeth o hyn hyd yma.

9. Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cyfranu costau canolog ar gyfartaledd o tua £507,000 yn flynyddol fyddai fel arall mae'n debygol yn disgyn ar adrannau eraill.

10. Maent wedi gwneud elw dros y 4 blynedd diwethaf sydd yn gyfanswm o £ 787,000 ac o ystyried sefyllfa economaidd y wlad mae hun o glod mawr iddynt.

11. Mae'nt yn cyflogi 98 o weithwyr proffesiynol o fewn Gwynedd ac yn cadw gwariant gyllidol flynyddol o £4.5m o fewn y Sir sydd efo effaith bositif dros ben ar ein cymunedau.

12. Maent yn cynnig manteison anelwig eraill sy'n gysylltiedig a chael darpariaeth ein hunain sydd yn anodd eu cloriannu ond yn dal yn bodoli.

13. Ymchwiliwyd i'r sefyllfa gyfredol a cheisiwyd darganfod tystiolaeth gadarn i gefnogi datganiadau o beth sydd wedi mynd o'i le.

14. Daeth yn amlwg yn fuan nad diffyg gwaith ar y llyfrau oedd y broblem gyffredinol ond awgrymwyd mai anwastadedd incwm oedd y broblem ac o’r herwydd roedd cynnydd sylweddol mewn costau.

15. Mae elfen yn sicr o brinder gwaith yn ail a thrydydd chwarter y flwyddyn o ganlyniad bod cleientau yn araf yn gollwng gwaith wedi cyfranu at y broblem ond rhaid nodi ar hun o bryd bod y Gwasanaeth yn gorlifo o waith yn y chwarter olaf ac yn debygol o fethu cyflawni bob dim efo'r staff presennol.

16. Mae'r Ymgynghoriaeth yn gryf ac yn egniol wrth chwilio am waith ac yn amlwg yn gyffredinol yn cael eu ystyried yn bositif gan eu clientau sydd yn eu hail ddefnyddio blwyddyn ar ol blwyddyn.

17. Fodd bynnag dwi’n bryderus braidd am rai elfennau sydd wedi dod i’r amlwg wrth ymchwilio i sefyllfa 2012/13 sy’n awgrymu i mi fod angen edrych yn ddyfnach am dystiolaeth o reolaeth gyllidol gadarn gan fy mod yn pryderu y gallasai fod yna elfen o " wing and a prayer " yn eu rheolaeth ariannol.

18. Nid yw'n dderbynniol cario ymlaen efo'r drefn bresennol a dylid ceisio dod i sefyllfa ble mae tystiolaeth gadarn a rheolaeth ariannol yn seiliedig ar risg dderbyniol cytunedig yn cael ei mabwysiadu er diogelu'r Cyngor yn yr hirdymor ac ar yr un pryd ddiogelu'r swyddi gwerthfawr cyn bellad a bo modd sydd yn elfen ganolog i'm ystyriaethau.

19. Anodd yw dod i gasgliadau pendant yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd gennyf ar hyn o bryd ac o ganlyniad gall hun arwain at broblemau ehangach yn y tymor hir

20. Does dim pwrpas ceryddu a gweld bai ar swyddogion sy'n gefnogol a brwdfrydig gan fod y sefyllfa mae'n debyg yn deillio o bwysau i gyrraedd targedau heriol ac o ganlyniad y ffocws wedi llithro o reoli i ddarganfod gwaith

21. Gwnaf yr argymhellion a nodir uchod gan nad wyf yn ystyried bod y sefyllfa fel ac y mae yn ddelfrydol nac yn dderbyniol ond ar yr un pryd credaf bod modd adfer y sefyllfa efo cefnogaeth.

22. Nid yw gwneud dim yn opsiwn

23. Mae dyfodol Ymgynghoriaeth a'r uchelgais o gefnogi swyddi lleol yn allweddol. Nid oes unrhyw arwydd o gamweinyddu nac ymgais atal gwybodaeth ac felly dof i'r casgliad na problem " honest" sydd yma sy'n deilwng o gefnogaeth i'w goresgyn.

**Ystyriaethau perthnasol**

24. Mae sefydlu sefyllfa debygol Ymgynghoriaeth ar gyfer 2013/14 yn hanfodol er mwyn sicrhau hyfywdra cyllideb y Cyngor, ond mae'n bwysig fod yna hyder yn y tafluniad hwnnw.

25. Mae'r Aelod Cabinet sydd a chyfrifoldeb dros faterion Cyllid wedi nodi fod gennym ddarpariaeth eisoes yn y gyllideb ar gyfer cydnabod elfen o leihad yn incwm Ymgynghoriaeth ac fe fyddai'n well ganddo wario ychydig mwy o amser yn dod at wraidd y sefyllfa na chynnig ateb na allwn roddi hyder ynddo.

**Camau nesaf ac amserlen**

26. Gan gymryd y bydd y cabinet yn cytuno byddaf yn cyflwyno casgliadau'r Pennaeth Cyllid cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac yn adrodd ar gasgliadau pellach ynglyn a'r tymor hirach cyn diwedd mis Medi 2013.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Yn amlwg mae rheolaeth gyllidol gwasanaethau yn fater o bwys ar gyfer y Cabinet a 'rwy'n croesawu awydd yr Aelod Cabinet i ddwyn y mater ger bron. 'Rwy'n cytuno a'r argymhelliad i ofyn i'r Pennaeth Cyllid gynnal ymchwiliad i'r mater gan adrodd yn ol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn deillio o benderfyniad y Cabinet ar 20 Tachwedd y dylid adrodd yn ffurfiol ar fesurau i resymoli'r Adran Ymgynghoriaeth i allu ymdopi a'r rhagolygon gwaith diweddaraf. Er nad yw'r adroddiad yn gwneud hynny'n llawn mae'n cynnig ffordd ymlaen. Mae'n fater felly i'r Cabinet benderfynnu a ydynt yn fodlon ar y cynnydd a wnaed a'r hyn a gynigir.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Fe adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter, ac yn seiliedig ar y rhagolygon ar y pryd, byddai'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn dangos sefyllfa gwariant net o £58,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn erbyn targed gweddill disgwyliedig o (£452,000), a olygai "gorwariant" o £510,000. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud gan yr Adran Ymgynghoriaeth gyda chefnogaeth yr Adran Gyllid i geisio sefydlu yr achos am y sefyllfa yma, ac mae'r gwaith yma yn parhau.

Er y gallai'r darlun newid wrth gwrs hefo efallai llwyddiant i ddenu fwy o ffynonhellau incwm ac yn y blaen, ond am y tro fe ragweli'r y gallai'r sefyllfa derfynol ddangos gorwariant oddeutu £600,000.

I bwrpas cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2013-14 rhaid ceisio amcan y darlun perthnasol mewn termau costau ac incwm. Eto fe allai'r darlun newid yn sylweddol erbyn y flwyddyn nesaf, ond am y tro fe gynlluni'r ar y sail fod y targed incwm yn gostwng oddeutu £250,000.

Mi fyddwn yn gweithio'n agos iawn hefo'r Adran Ymgynghoriaeth yn y misoedd nesaf ma i adolygu ei trefniadau rheolaeth ariannol a chyllidol gyda'r bwriad o gwblhau y gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **29 IONAWR 2013** |
| TEITL: | **ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 - GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLŶN Â PARCIO** |
| PWRPAS: | **CYFLWYNO GWYBODAETH YCHWANEGOL I'W GRAFFU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO YNGHYLCH RISGIAU YNG NGHYSWLLT CYLLIDEBAU'R CYNGOR A'I ADRANNAU, A PHENDERFYNIADAU PERTHNASOL Y CABINET** |
| GWEITHREDIAD: | **CRAFFU'R WYBODAETH YCHWANEGOL YN DILYN GWEITHREDIAD YR ADRAN, Y CABINET A'R AELOD CABINET PERTHNASOL** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID A ALED DAVIES, PENNAETH RHEOLEIDDIO** |
| AELODAU CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS A CYNGHORYDD GARETH ROBERTS** |

**1.** Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio 22 Tachwedd 2012 ar Adolygiad Ail Chwarter o Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2012/13, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

**2.** Ymysg y cyllidebau roedd yn destun pryder, roedd Gwastraff, Parcio a'r Uned Ymgynghoriaeth.

**3.** Mewn perthynas â chyllideb yr Adran Rheoleiddio ar gyfer Parcio, adroddwyd fel y nodir ar y tudalennau i ddilyn.

**4.** Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio 22/11/12 i wahodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Rheoleiddio i'r Pwyllgor Archwilio nesaf er mwyn craffu'r adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd ar Feysydd Parcio.

**5.** Cyfrifoldeb y Cabinet, wedi'i ddirprwyo'n achlysurol i'r Aelod Cabinet perthnasol, yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. sicrhau atebolrwydd swyddogion sy'n gyfrifol am reoli cyllidebau, cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol, ayb).

Mae’r adroddiad dilynol wedi’i gyflwyno gan yr Aelod Cabinet perthnasol, y Cynghorydd Gareth W Roberts, fydd yn bresennol yng nghyfarfod 29 Ionawr y Pwyllgor Archwilio er mwyn egluro’r gweithrediad perthnasol ac ymateb i ymholiadau’r aelodau, ynghyd â’r Pennaeth Rheoleiddio, Mr Aled Davies.

**6.** Gyda’i rôl fel rhan allweddol o’r gyfundrefn llywodraethu corfforaethol, mae’r Pwyllgor Archwilio yn annibynnol o gorff gweithredol y Cyngor.

Dylai’r Pwyllgor Archwilio geisio sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol a chefnogi’r swyddog cyllid statudol trwy graffu a herio penderfyniadau’r Cabinet a’u harweinyddiaeth mewn perthynas â threfniadau rheolaethol yr adrannau.

**CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | Cyllideb Agoriadol 2012/13 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 | Sefyllfa a Ragwelir 2012/13 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Meysydd Parcio** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **(1,026)** | **(1,000)** | **(902)** | **98** | | **98** |

**Eglurhad:-** Cynnydd o £19k o'r sefyllfa gorwariant net o £79k a ragwelwyd yn yr adolygiad chwarter cyntaf, yn cynnwys gostyngiad incwm mewn ffioedd parcio, dirwyon parcio a thocynnau tymor o £306k, arbedion mewn costau gweithredol o (£38k), a derbyniad incwm rhent blynyddoedd blaenorol o (£170k).

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **29 Ionawr 2013** |
| **TEITL** | **Materion Parcio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I Hysbysu'r Pwyllgor o'r Sefyllfa Ddiweddaraf Mewn Perthynas ar Adolygiad Parcio** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Ar ddiwedd Chwarter 1, adroddwyd bod tafluniad incwm o'r meysydd parcio yn awgrymu yn agos at £300k o ddiffyg yn ystod 2012-13 gyda'r gwir ddiffyg oddeutu £82k am y tri mis cyntaf. Ystyriwyd bod tair elfen benodol yn cyfrannu at hyn sef costau tanwydd, tywydd difrifol o wlyb yn y cyfnod o fis Ebrill hyd at ddiwedd Gorffennaf a chyflwr cyffredinol yr economi. Roedd gyda'r mwyafrif yn deillio o ddiffyg incwm meysydd parcio arfordir Meirionnydd.

1.2 Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd y diffyg a ragwelwyd yn £270k gyda'r broblem yn fwy amlwg yn ardal Arfon a Dwyfor.

1.3 Erbyn diwedd Chwarter 3, roedd y sefyllfa wedi gwella ychydig gyda'r diffyg a ragwelir wedi gostwng i £239k.

1.4 Yn anffodus, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar y tri ffactor sydd wedi arwain at y sefyllfa yma.

1.5 Ers rhai misoedd bellach, ac ar gais yr Aelod Cabinet, mae'r Adran Rheoleiddio yn ymgymryd ag adolygiad o elfennau o'r gwasanaeth parcio a ddarperir gan y Cyngor. Wedi i ganfyddiadau dechreuol a chyfres o opsiynau gael eu cyflwyno i sylw yr Aelod Cabinet a'r Cabinet Anffurfiol, penderfynwyd bod y Cabinet yn dymuno cael trafodaeth ehangach ar y mater gyda'r Gwasanaeth er cael cyfle i ystyried rhai o'r opsiynau ymhellach. Er nad oes dyddiad penodol wedi ei glustnodi ar gyfer y drafodaeth eto, mae gwaith ar y gweill i geisio ei chynnal yn ystod mis Chwefror. Y bwriad fydd adrodd yn ôl i'r Aelod Cabinet wedi hynny, cyn cyflwyno opsiynau pellach a chynigion ffurfiol i'r Cabinet.

1.6 O ran ymdrin gyda'r diffyg incwm eleni, mae'r Adran mewn sefyllfa lle gellir defnyddio arian unwaith ac am byth i leihau'r diffyg heb amharu ar wasanaethau eraill o fewn yr Adran neu ofyn am gyfraniad pellach o gyllideb corfforaethol y Cyngor. Daw'r cyfle yma oherwydd bod cyfran sylweddol o ôl-ddyled i'r Gwasanaeth Parcio wedi ei dalu yn ystod y flwyddyn. Fe ysgwyddodd yr Adran y diffygion oherwydd yr ôl-ddyled dros y 3 blynedd ariannol blaenorol gyda'r bwriad o glustnodi'r arian i gyflymu rhaglen waith ar gynlluniau diogelwch ffyrdd, man welliannau a gwella cyflwr meysydd parcio pan fyddai'r ddyled yn cael ei setlo. Mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth i reoli'r gyllideb, ac felly ni fyddwn yn medru dod a'r cynlluniau yma ymlaen bellach.

1.7 Yn ogystal, mae'r Adran Rheoleiddio a’r Adran Cyllid wedi bod yn adolygu priodoldeb y targed incwm ar gyfer 2013-14. O ystyried yr amgylchiadau a nodwyd argymhellwyd addasu'r targed drwy’r broses gyllidol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

1.8 Yn y cyfamser, mae'r Uned Parcio yn ymdrechu i asesu cyfleon i wella effeithlonrwydd y Gwasanaeth ac ar ganfod ffynonellau incwm eraill ar gyfer gwella meysydd parcio a chyflawni'r man welliannau.

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 IONAWR 2013** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 RHAGFYR 2012** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2012 hyd at 31 Rhagfyr 2012.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2012:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 16 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 2 |
| Adolygiadau Grant | 1 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2012, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd - Diogelwch Gwybodaeth | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Cofnodi a Rheoli Gwyliau | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| Gweinyddu Anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau | Corfforaethol | | C | Atodiad 3 |
| Swyddogaethau Rheolwyr Safle | Corfforaethol | | B | Atodiad 4 |
| Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth | Corfforaethol | | C | Atodiad 5 |
| Prif System Gyfrifo - Prosiect Uwchraddio | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 6 |
| Derbyn incwm mewn swyddfeydd | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 7 |
| Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 8 |
| Clybiau Ieuenctid | Economi a Chymuned | Ieuenctid | B | Atodiad 9 |
| Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | C | Atodiad 10 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion | Gwasanaethau Cymdeithasol | | B | Atodiad 11 |
| Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | Gwasanaethau Cymdeithasol | | C | Atodiad 12 |
| Glanhau Strydoedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Bwrdeistrefol | B | Atodiad 13 |
| Gweithfeydd - Cytundeb A55 | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | A | Atodiad 14 |
| Cynllun GwyriAD | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 15 |
| Trefniadau TG i aelodau | Strategol a Gwella | Democratiaeth | C | Atodiad 16 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Safon 7 y Fframwaith Comisiynu** *(Gwasanaethau Cymdeithasol).* Mae Safon 7 y fframwaith statudol yn nodi fod angen i'r Cyngor "*sicrhau bod ei Reolau Sefydlog ar Faterion Ariannol a Chontract yn golygu y gall comisiynwyr gofal cymdeithasol fod yn effeithlon ac effeithiol wrth ddatblygu'r farchnad gofal cymdeithasol leol*". Rhoddwyd ystyriaeth i ofynion statudol Safon 7 fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

- **Polisi Tywydd Garw** (*Gofal Cwsmer).* Fel rhan o waith ehangach ar y drefn Rheoli Risg Corfforaethol, rhoddwyd sylw penodol i'r Polisi Tywydd Garw, gan roi ystyriaeth i'r trefniadau lliniaru a gynigir ganddo ar gyfer Risgiau Parhad Gwasanaeth, Risgiau i Ddiogelwch, Iechyd a Lles staff a'r risg o unigolion yn camddefnyddio'r hawl i wyliau arbennig ar adegau o dywydd garw. Mae Archwilio Mewnol yn gefnogol i'r Polisi Parhad Gwasanaeth yn Ystod Tywydd Garw fel modd o sicrhau trefniadau clir a diamwys ar gyfer swyddogion y Cyngor. Gan mai blwyddyn sydd ers mabwysiadu'r Polisi, ac fod y Grwp Rheoli wedi ategu eu cefnogaeth iddo yn Rhagfyr 2012, mae Archwilio Mewnol yn derbyn na fydd y Polisi yn cael ei ddiweddaru yn y dyfodol agos. Serch hynny, awgrymwyd rhai addasiadau gan Archwilio Mewnol y byddai'n fuddiol i'w hystyried pan fydd y Polisi yn cael ei adolygu.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Addysg ôl-16 *(Addysg)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Dethol Contractwyr Amddiffyn yr Arfordir | Ymgynghoriaeth Gwynedd | | **Derbyniol** |
| Diogelwch TG mewn Ysgolion | Addysg | Ysgolion | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2012**

Recriwtio – Profion Hunaniaeth
Comisynu ar y Cyd gyda BILlPBC

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2013**

Uned Trwyddedu
Diogelwch Gwybodaeth
Lleihau Baich Gwaith Athrawon

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2013**

Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd
Gweinyddu Anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau
Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2013**

Trefniadau TG i aelodau
Dilyniant- Cofnodi a Rheoli Gwyliau

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ionawr 2013.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Cyfarpar gan Cyn-aelodau *(Strategol a Gwella)*
- Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau *(Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)*
- Cynllunio'r Gweithlu *(Corfforaethol)*
- Cytundeb Canlyniadau *(Corfforaethol)*
- Gwiriadau CRB Staff *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Budd-daliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Defnydd Honoraria *(Cyllid)*
- Gwaith Ymgynghorol - Safle Mewnrwyd yr Adran Gyllid *(Cyllid)*
- Rheoli Risg Corfforaethol *(Cyllid)*
- System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System paye.net *(Cyllid)*
- Cynllun Genesis *(Economi a Chymuned)*
- Gwerthusiad o'r Peilot Cyfryngau Cymdeithasol *(Gofal Cwsmer)*
- Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni *(Gofal Cwsmer)*
- Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Partneriaeth TraCC *(Rheoleiddio)*
- Prosiect Pont Briwet *(Rheoleiddio)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2012 i 31 Rhagfyr 2012, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# YSGOLION CYNRADD - DIOGELWCH GWYBODAETH
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Ysgolion Cynradd Gwynedd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a bod Penaethiaid, Athrawon, Staff Ategol a Llywodraethwyr yr Ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau parthed prosesu, cadw, diogelu a gwaredu gwybodaeth yn enwedig data personol sensitif.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewiswyd sampl o Ysgolion Cynradd yng Ngwynedd i'w harchwilio. Ymwelwyd â'r ysgolion i gynnal gwiriadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â prif egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod yna drefniadau cyffredinol da ar gyfer diogelu gwybodaeth bersonol yn yr ysgolion, ond fod angen tynhau ar rai rheolaethau. Mae angen i'r ysgolion sicrhau eu bod yn ail gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn flynyddol. Mae'n angenrheidiol nad oes unrhyw ddata personol yn cael ei gludo o ysgol ar bin cof heb fod y pin cof wedi ei amgryptio.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion Cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Byddai yn ddelfrydol pe byddai'r Adran Addysg yn cynhyrchu templed ar gyfer Ysgolion Cynradd yn manylu ar y math o ddogfen 'Diogelu Data' maent yn disgwyl ei weld mewn Ysgol Cynradd.**
- **Dylid sicrhau fod hyfforddiant priodol ar gael ar y Deddf Diogelu Data a'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer Penaethiaid newydd yn ogystal ag unrhyw benaethiaid eraill sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant o'r fath.**
- **Dylid ystyried cynnal cyrsiau ar y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer Llywodraethwyr.**
- **Dylid sicrhau ar gychwyn pob tymor Hydref bod ysgolion yn anfon allan hysbysiad preifatrwydd yn manylu ar yr hyn mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud gyda'r wybodaeth bersonol maent yn ei gasglu.**
- **Dylid sicrhau fod arweiniad yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgolion ar sut i baratoi cynllun argyfwng i reoli effaith unrhyw ddigwyddiad lle mae gwybodaeth bersonol gael ei ddatgelu'n groes i'r Ddeddf.**

# COFNODI A RHEOLI GWYLIAU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gwyliau blynyddol swyddogion wedi eu dyrannu'n gywir ac yn unol ag Amodau Gwaith y Cyngor a'r Amodau Gwaith Cenedlaethol. Gwirio bod gwyliau blynyddol wedi eu cymeradwyo'n briodol gan reolwyr/goruchwylwyr a bod cofnod digonol o'r gwyliau yn cael eu cadw mewn modd priodol a diogel. Yn ogystal, sicrhau bod gwyliau sy'n ddyledus yn cael eu trosglwyddo'n gywir ar ddiwedd y flwyddyn wyliau a bod unrhyw drosglwyddiad wedi ei gymeradwyo a'i gofnodi.

Cwmpas yr Archwiliad

Detholwyd sampl o unedau/gwasanaethau/sefydliadau trawsdoriad o holl Adrannau'r Cyngor gan gwmpasu staff llawn amser, rhan amser, tymhorol, achlysurol a.y.b. ar gyfer sefydlu bod y swyddogion wedi derbyn y dyddiau/oriau cywir o wyliau blynyddol yn unol ag Amodau Gwaith y Cyngor. Eithriwyd athrawon a chymorthyddion dosbarth o'r archwiliad oherwydd eu bod yn derbyn gwyliau safonol, a staff arlwyo a glanhau ysgolion gan eu bod yn derbyn tâl cyflog cyfartalog.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod ymarfer da mewn sawl adran, ac fod yr Adran Adnoddau Dynol wedi paratoi canllawiau ar hawl gwyliau blynyddol, sydd ar gael ar y fewnrwyd. Yn ogystal roedd y cyn-Adran Darparu a Hamdden wedi paratoi llawlyfr sydd yn cynnwys y gweithdrefnau a'r fformiwlâu ar gyfer cyfrifo hawl gwyliau'r mathau gwahanol o staff sydd yn gweithio o fewn yr Adran.

Nodir ymhellach:

- Roedd pob rheolwr (ac eithrio un) yn ymwybodol o nifer cywir y dyddiau gwyliau blynyddol i'w caniatau.
- Gwiriwyd cyn belled a bo modd, bod y cyfanswm gwyliau a gofnodwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd wedi ei gofnodi yn y cytundeb gwaith, ond roedd trefniadau paratoi cardiau gwyliau yn amrywio ar draws y Cyngor.
- Yn gyffredinol nid oedd rheolwyr llinell/goruchwylwyr yn caniatáu i weithiwr drosglwyddo gwyliau ac eithrio bod amgylchiadau arbennig neu gyfnod o salwch tymor hir. Fodd bynnag, darganfuwyd bod un eithriad ble'r oedd 90 diwrnod o wyliau wedi cronni dros sawl blwyddyn a'i gario o un flwyddyn i'r llall.
- Gwelwyd bod mwyafrif yr adrannau yn defnyddio cerdyn gwyliau i gofnodi a chymeradwyo gwyliau blynyddol, ond ni ddefnyddir cerdyn gwyliau safonol, gyda rhai yn parhau i ddefnyddio cardiau y cyn-gyfadrannau a Gwasanaethau Masnachol Gwynedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y trefniadau Cofnodi a Rheoli Gwyliau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod Rheolwyr a'r gweithwyr o dan eu gofal yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio cerdyn pwrpasol i gofnodi eu habsenoldebau gwyliau blynyddol.**
- **Dylid ystyried dylunio trefn safonol (boed yn electronig neu ar gerdyn) ar gyfer cofnodi absenoldebau gan gynnwys gwyliau blynyddol, salwch a.y.b., a chyflwyno'r drefn fel datrysiad corfforaethol (oni bai bod achos busnes cryf yn mynegi fel arall).**
- **Dylai sicrhau bod absenoldebau gwyliau blynyddol staff yn cael eu cofnodi drwy gynnal profion rheolaidd ar hap.**

# GWEINYDDU ANFONEBAU CYN EU PASIO I'R UNED TALIADAU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu priodoldeb ac effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r system tracio anfonebau.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r system tracio anfonebau sydd yn fodiwl o fewn y system tracio gohebiaeth gorfforaethol. Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o drefniadau a phrosesau yr Uned Daliadau, na'r modiwl taliadau o fewn y brif system gyfrifo.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y system tracio anfonebau wedi ei chreu a'i datblygu gydag opsiynau i gynhyrchu adroddiadau amrywiol am yr anfonebau sydd wedi eu cofnodi arni, gan gynnwys nifer dyddiau prosesu, nifer anfonebau fesul adran a manylion yr anfonebau sydd heb eu hardystio. Mae nifer o fylchau i'w cwblhau gan ddefnyddwyr er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol i greu adroddiadau synhwyrol a defnyddiol os am ddilyn trefn o fonitro.

Fodd bynnag, gwelwyd nad oes defnydd yn cael ei wneud o'r swyddogaethau yma gan nad oes gweithdrefn ffurfiol o fonitro anfonebau mewn lle. Fel cyfrannedd o'r holl anfonebau sydd yn cael eu talu, canran isel iawn ohonynt sydd yn cael eu cofnodi yn y system tracio anfonebau. Y defnydd sydd yn cael ei wneud o'r system tracio anfonebau yw creu taflenni pennawd swp (TR257) ar gyfer anfonebau sydd yn barod i'w trosglwyddo i'r broses o greu taliad. Yn ogystal, defnyddir y system i gynhyrchu ystadegyn o'r nifer o ddyddiau y mae anfoneb yn cymryd i'w brosesu er mwyn adrodd ar fesur perfformiad er nad yw hyn o reidrwydd yn gynrychioliadol o anfonebau'r Cyngor gan mai cyfran isel sy'n cael eu tracio. Gwelwyd fod angen addasu'r mesur sydd mewn lle gan nad yw yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Gwynedd.

Wrth ystyried y defnydd a wneir o'r system tracio anfonebau, ymddengys fod gwybodaeth diangen yn cael ei gofnodi, ac os nad oes cynlluniau i'w defnyddio yn y dyfodol, nid oes gwerth i'w gofnodi.

Wrth adolygu prydlondeb talu yr anfonebau sydd wedi eu cofnodi yn y system tracio anfonebau, gweler eu bod ar y cyfan wedi eu talu yn brydlon. Gan nad yw'r system yn ychwanegu mesurau o effeithlonrwydd neu brydlondeb ei hunan, mae'n debyg fod y canlyniad yma yn seiliedig ar weithdrefnau prosesu anfonebau y gwasanaethau penodol sydd yn ei defnyddio.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn effeithlonrwydd y trefniadau tracio anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu'r targed perfformiad ar gyfer y nifer o ddyddiau i brosesu anfonebau gan unai ei ddiddymu neu ei ostwng i nifer rhesymol o ddyddiau fyddai yn galluogi i'r Cyngor dalu anfonebau o fewn 10 diwrnod gwaith yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer ymateb i'r Dirwasgiad.**

- **Dylid adolygu'r defnydd a wneir o'r system tracio anfonebau ar hyn o bryd ac unrhyw gynlluniau ar ei chyfer yn y dyfodol agos, ac os nad oes bwriad i'w defnyddio ar gyfer unrhyw agwedd ymhellach i greu taflenni pennawd swp, dylid diddymu'r gweithdrefnau casglu a chofnodi gwybodaeth diangen ar y system.**

## SWYDDOGAETHAU RHEOLWYR SAFLE
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Rheolwyr Safle yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â Chynllun Rheoli Tân, Asbestos a Legionella y Cyngor a bod Rheolwyr Safle yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb o dderbyn caniatâd gan yr Uned Eiddo neu'r Adran Ymgynghoriaeth cyn i unrhyw waith gymryd lle ac i sicrhau fod cysylltiad gyda'r contractwyr drwy roi cyflwyniad i'r adeilad ac i hysbysu o unrhyw risgiau asbestos.

Cwmpas yr Archwiliad

Detholwyd sampl o 13 o sefydliadau'r Cyngor gan wirio bod Rheolwyr Safle wedi'u dynodi ac wedi derbyn hyfforddiant priodol a'u bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas â diogelwch tân, asbestos a legionella. Gwiriwyd bod profion diogelwch tân, asbestos a legionella yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chofnodion digonol yn cael eu cadw.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod trefniadau rheolaeth fewnol yn bodoli, ond bod efallai ychydig o wendid wrth ddilyn y canllawiau neu drefniadau a gyflwynwyd. Y gwendid mwyaf a welwyd oedd nad yw sefydliadau addysgol yn cwblhau tasgau glendid dŵr yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae angen cwblhau'r tasgau yma ar ffynonellau dŵr sydd ddim yn cael eu defnyddio'n aml er mwyn lliniaru'r risg i facteriwm clefyd y llengfilwyr dyfu. Golygai hyn felly bod angen cwblhau'r tasgau yn ystod gwyliau'r ysgol.

Gwelwyd hefyd bod diffyg Cynllun Gwacâd Argyfwng generig mewn sefydliadau sydd ar agor i'r cyhoedd e.e. canolfannau hamdden, llyfrgelloedd. Mae angen creu un o'r rhain fel bod cynllun yn bodoli sy'n nodi sut i sicrhau bod pawb, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd sydd gydag anableddau, yn gadael yr adeilad mewn modd diogel ac effeithiol pe bai argyfwng.

Mae aelod o staff o bob sefydliad wedi mynychu'r cwrs Rheoli Safle'n Ddiogel ac o ganlyniad wedi derbyn copi o ddogfennau a pholisïau perthnasol i'w cadw, serch hynny nid oedd pob polisi wedi eu cynnwys yn y bocs glas. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd gan y Rheolwyr Safle bod yr Ymgynghorwyr Iechyd, Diogelwch a Lles yn barod i ymweld â hwy i'w cynorthwyo gyda'u trefniadau iechyd a diogelwch.

Gwelwyd enghraifft o ymarfer da mewn un ysgol lle 'roedd y Gofalwr yn gyfrifol am gwblhau profion diogelwch. Er mwyn sicrhau bod y tasgau i gyd yn cael eu cwblhau, roedd rhestr wirio wythnosol wedi ei chynhyrchu sydd yn nodi'r holl dasgau i'w cwblhau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Swyddogaethau Rheolwyr Safle gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod swyddogion perthnasol h.y. marsialyddion tân a chyd-lynwyr tân, yn derbyn hyfforddiant tân yn gyfnodol. Yn ogystal, dylid cofnodi hyn yn y Llyfr Log Tân. Hefyd, dylid ystyried cynnal cyrsiau atgoffa Rheoli Safle'n Ddiogel.**
- **Dylai'r Rheolwyr Safle sicrhau bod polisïau a chanllawiau'r Cyngor yn bresennol yn y bocs glas yn ogystal â sicrhau eu bod yn gyfredol.**
- **Dylid cadw cofnod fod tasgau glendid dwr yn cael eu cwblhau.**

# TREFNIADAU YMDRIN Â GOHEBIAETH
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad oedd adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ar draws y Cyngor ar gyfer sicrhau bod pob eitem o ohebiaeth gan ffynhonnell allanol yn cael ei drin yn briodol, ynghyd â sicrhau bod ymateb yn cael ei anfon yn amserol, os yn berthnasol. Mae'r gwaith yma yn deillio o adroddiad a gyflwynwyd i'r Grŵp Rheoli ym mis Rhagfyr 2011 gan y Pennaeth Gofal Cwsmer yn mynegi pryderon ynglŷn â'r trefniadau ymateb i ohebiaeth pryd y penderfynwyd gwneud darn o waith i gael dealltwriaeth well o natur y broblem.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r mesurau cofnodi a rheoli gohebiaeth papur ac electronig ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys adolygiad o'r system tracio gohebiaeth sydd wedi ei sefydlu gan yr Adran Gofal Cwsmer.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod gwendidau sylweddol yn bodoli parthed y bas-data tracio gohebiaeth. Roedd rhai o'r prif wendidau wedi eu hadnabod yn yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2006/07 ac yn cynnwys diffyg trywydd archwilio, yn benodol y gallu i ddileu trac neu newid manylion trac heb unrhyw gofnod neu "log". Darganfuwyd bod cwynion yn cael eu cofnodi yn y bas-data er nad oedd y blwch penodol wedi ei ddethol i ddynodi hynny. Gwelwyd yn ogystal bod modd i unrhyw ddefnyddiwr weld manylion cwyn wrth ddefnyddio'r cyfleuster chwilio a bod manylion sensitif yn bodoli yn y wybodaeth a gofnodwyd.

Darganfuwyd fod problemau yn bodoli o safbwynt beth sy'n cael ei gofnodi a'i dracio, methiant i wahaniaethu rhwng beth ddylid cael ei dracio ai peidio, a'r gallu i newid statws trac, e.e. tynnu'r "trac" i ffwrdd i wella perfformiad ymddangosiadol. Gwelwyd bod gohebiaeth fewnol yn cael ei gofnodi gan rai tra bod rhai sefydliadau allanol yn cydymffurfio â'r Polisi Ateb Llythyrau ond nad oedd cofnod o hynny oherwydd nad oeddynt yn ymwybodol o'r system.

Roedd y trefniadau ar gyfer Ymholiadau Electronig yn gweithredu'n foddhaol - derbynnir yr ymholiadau hyn yn Galw Gwynedd a gwelwyd bod trefniadau addas yn bodoli ar gyfer un ai ymateb yn uniongyrchol i'r ymholiad neu ei gyfeirio at sylw'r gwasanaeth perthnasol.

Yn gryno, nid yw adroddiadau ac ystadegau perfformiad y Cyngor yn gywir a dibynadwy oherwydd nid oes rheolaeth dros yr hyn sydd yn cael ei gofnodi a gall swyddogion gymryd camau i ystrywio ystadegau oherwydd y diffygion sydd yn bodoli yn y system.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau ymdrin â gohebiaeth gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa swyddogion ar draws y Cyngor (drwy drefniant megis Cyfathrebu Mewnol) am bwysigrwydd ymateb i ohebiaeth allanol yn unol â'r Polisi Ateb Llythyrau. Dim ond gohebiaeth allanol sydd angen ei dracio ac nid oes angen gwastraffu adnoddau yn mewnbynnu manylion gohebiaeth fewnol a gall cael effaith ar ddangosyddion perfformiad y Cyngor ar gyfer ymateb i lythyrau.**
- **Dylid ystyried gwerth adrodd ar berfformiad ymateb i lythyrau allanol oherwydd serch y ffaith bod y perfformiad yn dda, nid yw'n wir adlewyrchiad o beth yw'r gwir sefyllfa oherwydd yr amrywiaeth o ran beth sydd yn cael ei dracio, bod pethau yn cael eu tynnu oddi ar y system ac na roddir ystyriaeth i ohebiaeth a dderbynnir drwy e-bost at swyddog yn uniongyrchol.**

# PRIF SYSTEM GYFRIFO - PROSIECT UWCHRADDIO
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod uwchraddiad y prif system ariannol yn ystod haf 2012 wedi ei gwblhau mewn modd llwyddiannus a phriodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Bydd adolygiad o ddogfennau'r prosiect, gan gynnwys y gwaith monitro, profi a rheoli risgiau, ynghyd â'r mesurau cyswllt â defnyddwyr y system.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod yr uwchraddiad o’r system gyfrifo wedi ei gyflawni yn llwyddiannus, o fewn yr amserlen addasiedig a’r gyllideb a awdurdodwyd. Nodwyd fod egwyddorion methodoleg rheoli prosiect ffurfiol wedi eu cyflawni fel rhan o’r gweithgareddau, gyda rolau wedi eu diffinio a chamau penodol wedi eu cyflawni. Derbyniwyd tystiolaeth o ddogfennau briffio a monitro’r gwaith ynghyd â phrofion llwyddiant a chywirdeb yr uwchraddiad. Gwelwyd fod defnyddwyr wedi derbyn arweinad ar sut y mae’r uwchraddiad wedi eu heffeithio.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau prosiect uwchraddio’r Prif System Gyfrifo gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.**

**DERBYN INCWM MEWN SWYDDFEYDD**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau a rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer derbyn arian yn swyddfeydd y Cyngor a bod cofnodion digonol o'r incwm yn cael eu cadw; bod yr arian yn cael ei fancio'n gyson ac yn gyflawn yn ogystal â gwirio bod trefniadau diogelwch digonol yn bodoli.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio sampl o wasanaethau sy'n derbyn arian gan y cyhoedd i sicrhau bod cofnodion digonol o'r incwm yn cael eu cadw, a bod y trefniadau yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Yn ogystal, gwirio bod manylion y cofnodion incwm yn cyd-fynd â'r cyfriflyfr. Gwirio trefniadau diogelwch dros arian sy'n cael ei gadw dros nos mewn swyddfeydd ac amledd a chyflawnrwydd bancio. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio'n bennaf ar sefydliadau a oedd yn flaenorol yn talu incwm yn y swyddfeydd arian, ond nid oedd yr archwiliad yn gyfyngedig i'r sefydliadau hynny.

Prif Ddarganfyddiadau
Cadarnhaodd y swyddogion yn y sampl o sefydliadau/unedau a ddetholwyd eu bod yn fodlon gyda'r ddyletswydd a'r broses o dderbyn a bancio incwm mewn swyddfeydd a bod canllawiau wedi eu darparu i'w cynorthwyo yn y broses. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau wedi eu diweddaru ers cyfnod sylweddol ac wedi'i dyddio i ofynion derbyn a bancio incwm yn y sefydliadau heddiw. Mynegodd nifer o swyddogion nad oedd modd cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol oherwydd dyletswyddau eraill gyda'u swydd a diffyg adnoddau o fewn eu sefydliadau.
Gwelodd yr archwiliwr fod llyfr derbynneb swyddogol y Cyngor yn bresennol yn y mwyafrif o'r sefydliadau, gyda'r swyddogion yn dosbarthu derbynneb i'w cwsmeriaid, a'r wybodaeth yn ymddangos ac yn cyd-fynd â ffurflenni bancio incwm (TR34). Yn ogystal, gwelwyd bod y mwyafrif o'r sefydliadau yn y sampl yn cwblhau ffurflenni TR34 yn gywir ac yn gyflawn gyda'r ffurflenni yn cael eu cyflwyno i'r Uned Incwm/Swyddfa Ariannwyr yn brydlon. Fodd bynnag, adnabuwyd achlysuron lle nad yw sefydliadau yn dosbarthu derbynneb i'w cwsmeriaid am daliadau i'r Cyngor.
Mae gan yr Uned Incwm drefniadau ar gyfer clirio incwm sydd yn y cyfrifon dros dro a gwelwyd bod gan y sefydliadau drefniadau diogel ar gyfer cadw unrhyw incwm yn y sefydliad dros nos.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau derbyn incwm mewn swyddfeydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r canllawiau 'Derbynebau Swyddogol - Nodiadau i Ddefnyddwyr' i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol.**
- **Dylid paratoi cyfarwyddyd a'i anfon i'r sefydliadau perthnasol yn eu hatgoffa o bwysigrwydd bancio pob eitem o incwm sy'n cael ei dderbyn yn y sefydliadau i gyfrifon y Cyngor yn brydlon.**

## RHEOLI CONTRACTAU - ADFYWIO CANOL BLAENAU FFESTINIOG
### Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod taliadau sy'n cael eu cwblhau i gontractwyr gyda'r grant Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a sicrhau fod y taliadau wedi'u cyfrifo'n gywir gyda dogfennau digonol i gyfiawnhau'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o daliadau sydd wedi'u cwblhau i gontractwyr, gan wirio bod y taliadau yn gywir, wedi'u hawdurdodi a bod gan y Cyngor ddogfennau digonol i gyfiawnhau'r taliadau. Gwirio fod unrhyw amrywiadau i'r cytundeb yn derbyn adolygiad, bod triniaeth treth ar werth yn gywir ac nad oes taliadau wedi'u gwneud am asedau na ddefnyddir ar y contract.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod ymgynghorwyr y cynllun Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog yn cynnal adolygiadau rheolaidd o waith y prif gontractwr, gyda thystysgrifau interim arwyddedig, net o TAW wedi'u derbyn, a gwerthusiad digonol i gyfiawnhau'r taliadau yn cael eu darparu. Yn ogystal, cafodd arian dargadw ei dynnu allan o'r tystysgrifau interim yn gywir.

Y prif wendidau a adnabuwyd oedd na chafodd arian dargadw eu tynnu allan o'r taliadau i artist y cynllun yn unol â'r cytundeb a gwelwyd rhai gorchmynion amrywio nad oedd wedi eu harwyddo pan oedd addasiadau i'r cytundebau gwreiddiol gyda'r artist a'r ymgynghorwr.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheoli Contract Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Yn dilyn adolygiad o waith yr artist, dylai'r Uwch Swyddog Adfywio Strategol cwblhau Cofrestr Gweithgareddau arwyddedig a dyddiedig er mwyn cefnogi'r taliadau sy'n cael ei gwblhau iddo.**

- **Dylid sicrhau bod trefniadau mewn lle yn y dyfodol i 'Gorchmynion Amrywio' cytunedig cael eu harwyddo gan gynrychiolydd Cyngor Gwynedd/Ymgynghorwr a chynrychiolydd o'r contractwr yn dilyn cytundeb am bris y gwaith rhwng y partion perthnasol.**

- **Dylid sicrhau bod arian dargadw yn cael ei dynnu allan o unrhyw daliadau i gontractwyr yn dilyn adolygiad o'u gwaith yn unol â'r cytundeb.**

# CLYBIAU IEUENCTID
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau mewn lle yng Nghlybiau Ieuenctid Gwynedd, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio y prif feysydd gwariant ac incwm yng nghyfriflyfr y Cyngor ar gyfer 2011/12 a 2012/13. Profi hefyd trefniadau'r Gwasanaeth Ieuenctid canolog a'r Clybiau Ieuenctid eu hunain ar gyfer rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod trefniadau yn gyffredinol dda ar y cyfan yng Nghlybiau Ieuenctid Gwynedd. Er hynny, gwelwyd bod angen i rhai o'r clybiau wella eu trefn o weinyddu eu llyfrau cyfrifon a bod angen iddynt fancio yn fwy rheolaidd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Clybiau Ieuenctid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod offer gwerthfawr y clybiau yn cael eu marcio i ddangos mai'r clybiau sydd yn berchen arnynt drwy ddefnyddio dyfais briodol.**
- **Dylid sicrhau fod gweithwyr ieuenctid yn cael cyfle i fynychu cwrs 'Trin a Chodi Pwysau' oddi ar matrics hyfforddiant a datblygu y Cyngor.**
- **Dylid symud ymlaen i geisio datblygu'r bas data fel ei fod yn bosibl creu allbwn ohono a fydd yn medru bod yn rhan o'r broses cyflwyno data cyflogau.**
- **Dylid sicrhau fod y sawl sydd yn bancio yn arwyddo'r cofnod yn y llyfr cyfrifon pob amser.**
- **Dylid sicrhau o hyn allan fod yr Arweinyddion yn cadw cofnodion mwy trylwyr drwy sicrhau bod y manylion cywir sef y gwir dyddiadau a'r symiau a fanciwyd yn ymddangos yn y llyfr cyfrifon.**
- **Dylid sicrhau, os llogir unrhyw adeilad gan y Gwasanaeth Ieuenctid allan i gwmni allanol yn y dyfodol, bod cytundeb yn cael ei greu rhwng y cwmni a'r Gwasanaeth Ieuenctid.**
- **Dylid sicrhau fod copïau cyfredol o drwyddedau gyrru gyrwyr y bysiau mini yn cael eu cadw ar ffeil a dylid sicrhau fod y gyrwyr yn ymwybodol bod rhaid iddynt ddatgelu unrhyw newidiadau i'w trwyddedau gyrru yn syth i'r Gwasanaeth Ieuenctid.**

# TREFNIADAU WRTH GEFN A PHARHAD GWASANAETH
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod cynlluniau priodol mewn lle i osod gwydnwch o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, fel ei fod yn gallu parhau i ddarparu ei wasanaeth i'w gleientau mewn achosion o ddigwyddiad(au) yn amharu ar y gweithdrefnau arferol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu dogfennaeth sydd wedi ei baratoi ar gyfer parhad busnes gan asesu eu priodoldeb. Bydd yr archwiliad hefyd yn adolygu'r mesurau mewn lle i greu a chynnal copïau wrth gefn o ddata.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ddarpariaeth mewn lle a mesurau pellach wedi eu cynllunio er mwyn galluogi parhad busnes i wasanaethau a systemau sydd wedi eu dynodi i fod yn allweddol. Deallwyd fod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn y broses o ddogfennu cynllun yn seiliedig ar dempled sydd wedi ei gynhyrchu gan fforwm cydweithio rhwng gwasanaethau awdurdodau Gogledd Cymru a'r mesurau sydd mewn lle ac wedi ei gynllunio i'w cwblhau ar gyfer isadeiledd a systemau'r Cyngor.

Mae rhai profion o ymarferoldeb y mesurau parhad gwasanaeth wedi eu cyflawni yn llwyddiannus, a bydd modd cynnal ymarferiadau pellach yn dilyn uwchraddiad i feddalwedd penodol. Er fod y mesurau parhad gwasanaeth sydd mewn lle yn rhesymol, gyda buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud i'w sefydlu, nodwyd rhai agweddau sydd angen eu cwblhau er mwyn rhoi mandad priodol i fynegi'r mesurau yma fel cynllun swyddogol corfforaethol y Cyngor.

Mae angen sicrhau fod yr unigolion sydd â chyfrifoldeb dros ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor yn cael cyfle i drafod ac ystyried y mesurau parhad sydd ar eu cyfer fel bod modd iddynt asesu os ydynt yn ddigonol neu briodol. Fel rhan o sefydlu cynllun priodol, mae'r unigolion sydd yn rhan ohono mor allweddol â'r technoleg, felly mae angen dynodi'r rolau penodol ar gyfer awdurdodi a gweithredu agweddau penodol ohono. I sicrhau ymarferoldeb y Cynllun, mae angen sicrhau fod y meini prawf ar gyfer ei weithredu yn glir i'r unigolion sydd â chyfrifoldeb amdano.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y trefniadau wrth gefn a pharhad gwasanaeth gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Fel rhan o broses cynllunio ar gyfer parhad gwasanaethau o safbwynt technoleg gwybodaeth, dylai cynrychiolydd priodol o phob Gwasanaeth gael cyfle i fynegi eu barn am y darpariaeth sydd mewn lle ar eu cyfer a chyfle i ystyried pa adnoddau ychwanegol fyddai ei angen os am ei wella.**

- **Gan mai darparu gwasanaethau ar gyfer adrannau'r Cyngor y mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, dylid sicrhau fod cynrychiolwyr yr Adrannau yn defnyddio'r fforwm perthnasol, sef y Grwp Llywodraethu TG, er mwyn trafod a mynegi barn am y ddarpariaeth ar gyfer parhad gwasanaeth fel bod mandad priodol ar gyfer y cynlluniau sydd yn eu lle.**

- **Fel rhan o gyflawni cynllun parhad gwasanaeth, dylid sefydlu rolau penodol unigolion priodol sydd â'r awdurdod i weithredu'r agweddau amrywiol ohono, ynghyd â'r meini prawf priodol ar gyfer y gweithrediad hwnnw.**

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - GWIREDDU ARBEDION
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol cadarn yn bodoli i liniaru'r risgiau all rwystro gwireddu amcanion arbedion yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, a'r risg o fethu targedau.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio sampl o gynlluniau arbedion sydd i'w cwblhau dros y 3 mlynedd nesaf. Archwiliwyd sampl o chwech o gynlluniau arbedion sydd i'w cyflawni o fewn y 3 mlynedd nesaf sef Galluogi, Adolygu Pecynnau Gofal Cartref, Gwasanaethau Dydd - Pobl Hyn, Adolygu Gwasanaeth Gofal Dydd Anabledd Dysgu, Effeithlonrwydd Lleoliadau Maeth ac Ail-fodelu gwasanaeth cefnogol i blant a theuluoedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn rheolaeth y cynlluniau arbedion. Wrth edrych ar y sampl o gynlluniau gwelwyd fod amrywiad gyda'r dull oedd y cynlluniau arbedion hyn yn cael eu rheoli. Fodd bynnag gwelwyd tystiolaeth fod yr holl gynlluniau arbedion yn cael ei rheoli mewn un man gan y Rheolwr Adnoddau Ariannol. Gwelwyd fod y Rheolwr Adnoddau Ariannol yn paratoi adroddiadau cynnydd ac yn cadw taenlen sydd yn dangos os yw'r cynlluniau ar y trywydd cywir i gyflawni'r cyfanswm arbedion. Gwelwyd fod cynlluniau mewn lle ar gyfer ceisio cyflawni y targed arbedion ar gyfer yr holl gynlluniau yn y sampl. Gwelwyd tystiolaeth o daenlen cyllideb 2012-13 Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y targedau arbedion sydd yn gobeithio cael ei cyflawni yn 2012-13 wedi eu hadlewyrchu yng nghyllideb y flwyddyn. Wrth archwilio sampl o gynlluniau, gwelwyd fod un o'r cynlluniau hyn wedi dilyn y Llawlyfr Rheoli Prosiectau er nad oes disgwyliad i ganlyn hwn, a gwelwyd fod y cynllun arbedion hwn wedi ei strwythuro yn glir o ganlyniad i hyn. Gwelwyd bod rhai o faterion rheolaeth y cynlluniau angen sylw pellach, sef sicrhau bod risgiau'r cynlluniau yn cael eu hadnabod a bod strwythur clir yn cael ei baratoi ar gyfer y cynllun. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol ym mhriodoldeb gwireddu arbedion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Buasai'n ymarfer da i baratoi briff ar gyfer y cynlluniau arbedion er mwyn nodi yn ysgrifenedig sgôp a strwythur a rhoi ffocws i'r cynllun.**
- **Buasai'n ymarfer da i baratoi cynllun busnes ar gyfer y cynlluniau arbedion mewn ffurf siart Gantt er mwyn nodi yn glir y tasgau a llinellau amser cysylltiedig a sut mae amcanion y prosiect yn mynd i gael eu cyflawni.**
- **Dylid paratoi cofrestr risg ar gyfer yr holl gynlluniau arbedion, er mwyn nodi yr holl risgiau a bygythiadau a all rwystro y cynllun arbedion rhag llwyddo. Mae'n bwysig adnabod y risgiau a rhoi cynlluniau mewn lle er mwyn lliniaru y risgiau hyn.**
- **Awgrymir dylid paratoi log gwersi a ddysgwyd ar gyfer yr holl gynlluniau arbedion er mwyn nodi unrhyw beth aeth o'i le yn y cynllun neu unrhyw beth o bwys sydd wedi codi yn ystod y cynllun fel bod yr un camgymeriadau ddim yn cael ei hailadrodd yn y dyfodol.**

# MESURAU PERFFORMIAD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - CYWIRDEB DATA CRAIDD
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau, prosesau a systemau cywir a phriodol yn eu lle gan yr Uned Perfformiad a Data Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer casglu data a gwybodaeth y gellir ei fesur er mwyn rheoli a monitro perfformiad.

Cwmpas yr Archwiliad
Sicrhau cywirdeb mesuryddion perfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden drwy ddethol sampl dangosyddion 2011/12 a rhai newydd yn y dyfodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn yr Uned Perfformiad a Data ar y maes cywirdeb data. Gwelir bod cynnydd yn y rheolaethau ar gyfer casglu data ar gyfer maes plant yn benodol a gwelir ei bod ar y blaen i faes Oedolion. Fodd bynnag, wrth edrych ar y ddau faes gwelir bod angen cadw ychydig mwy o dystiolaeth a chofnod ar gyfer rhai mesuryddion, symud ymlaen i roi'r wybodaeth ar un system a rhoi adborth i swyddogion perthnasol i gael cadarnhad o gywirdeb data. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb cywirdeb data ar gyfer Mesuryddion Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried anfon diffiniadau a chanllawiau cenedlaethol, neu'r linc perthnasol, i bob swyddog sy'n gyfrifol am fewnbynnu'r data / gasglu'r data, a chadw cofnod o bwy sydd wedi eu derbyn.**

- **Dylid dilyn fyny ceisiadau sydd wedi eu gwneud i fynychu cyrsiau / hyfforddiant gyda'r Uned Ddata Cymru er mwyn ceisio sicrhau hyfforddiant arbenigol i alluogi swyddogion i gyflawni eu gwaith yn fwy effeithiol.**

- **Dylid sicrhau bod gymaint â phosib o dystiolaeth yn cael ei gasglu sy'n cadarnhau cywirdeb y data a dderbyniwyd ar gyfer y mesuryddion perfformiad.**

- **Dylai'r adran wneud pob ymdrech i gael yr holl wybodaeth am y cleientiaid mewn un man (e.e. RAISE), lle mae hynny'n bosibl, a bod yr wybodaeth yma'n cael ei wirio am gywirdeb, fydd yn sicrhau bod yr adroddiadau oddi ar y system yn rhoi'r wybodaeth cywir i'r mesuryddion perfformiad.**

- **Dylid cadw cofnod o unrhyw wybodaeth sydd wedi cael ei herio fel cadarnhad ei fod yn gywir a dibynadwy.**

- **Dylid sicrhau bod yr wybodaeth ar y cardiau record yn cael eu cadw'n gyfredol.**

# GLANHAU STRYDOEDD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad oedd sicrhau bod strategaeth glanhau strydoedd a rhaglen waith wedi ei seilio ar ddeddfwriaethau perthnasol ac ymarfer da er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni eu hamcan o gadw Gwynedd yn daclus yn effeithiol.

Cwmpas yr Archwiliad

Llunnir yr adroddiad drwy sicrhau bod rheolaethau mewn lle i warantu bod y cytundeb yn cyfrannu'n effeithiol tuag at Strategaeth Gymunedol Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 19 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 17 o'r rheolaethau hyn. Dengys fod mynegai glendid Gwynedd (mesur glanweithdra) wedi gwella yn gyson ers 2008/09, ac yn parhau i wella. Ar sail arolygon annibynnol Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer 2011-12, mynegai glendid Gwynedd oedd yr uchaf yng Nghymru ar 72%. Mae'r Uned Rheoli Gwastraff a Chomisiynu angen adolygu'r Cytundeb Glanhau Strydoedd i gyd fynd â'r Côd Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff a Chanllawiau Cysylltiedig 2007.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau'r Unedau Rheoli Gwastraff a Chomisiynu a Gwaith Bwrdeistrefol ar gyfer cyflawni eu hamcanion o gadw Gwynedd yn daclus, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu'r Cytundeb Glanhau Strydoedd er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio a'r Côd Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff a Chanllawiau Cysylltiedig 2007.**
- **Dylai'r Uned Rheoli Gwastraff a Chomisiynu derbyn adroddiadau misol sydd yn amlygu cwynion sydd wedi eu dynodi fel parhau i fod yn agored.**
- **Dylai'r Uned Rheoli Gwastraff a Chomisiynu gysylltu gyda'r Uned Technoleg Gwybodaeth er mwyn trefnu i dderbyn adroddiadau misol fydd yn amlygu'r mannau sydd angen sylw ac i'w cynorthwyo i gynllunio rhaglen gwaith ar gyfer yr ardaloedd hynny.**

## GWEITHFEYDD - CYTUNDEB A55
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r rheolaethau a'r trefniadau sydd mewn lle er mwyn sicrhau fod cytundeb Prosiect A55 sydd rhwng Cyngor Gwynedd a UK Highways A55 Ltd yn cael ei gweinyddu a'i chynnal mewn modd proffidiol ac yn unol â'r gytundeb.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Edrych ar drefniadau o fewn y Prosiect A55 er mwyn sicrhau fod darpariaethau wedi eu gwneud er mwyn cynnal a chadw'r briffordd yn unol â'r cytundeb.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Mae'r rheolaethau a'r trefniadau sydd mewn lle yn sicrhau fod cytundeb Prosiect A55 sydd rhwng Cyngor Gwynedd a UK Highways A55 Ltd yn cael ei gweinyddu a'i chynnal mewn modd proffidiol ac yn unol â'r cytundeb. Darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn y prosiect A55. Gwelir hefyd bod cyd weithio a pherthynas dda rhwng y Cyngor a UK Highways Ltd. Mae "Operational Phase Project Health and Safety Plan" sydd yn benodol i'r Prosiect wedi ei diwygio yn ddiweddar.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r Cytundeb A55 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CYNLLUN GWYRIAD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad hwn yw adolygu cofrestr risg Cynllun GwyriAD er mwyn gwirio ei bod yn gynhwysfawr ac yn cael ei chadw'n gyfredol drwy ei diweddaru yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod holl risgiau'r cynllun wedi eu cynnwys. Sicrhau fod y gofrestr risg yn cael ei defnyddio fel canllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu cynnwys y gofrestr risg er mwyn sicrhau ei bod yn gynhwysfawr ac yn cael ei chadw yn gyfredol. Sicrhau fod rheolaethau priodol yn eu lle ar gyfer y Cynllun GwyriAD er mwyn rheoli'r risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod Cofrestr Risg yn bodoli ar gyfer prosiect GwyriAD, a'i fod yn gynhwysfawr. Fodd bynnag mae angen sicrhau ei fod yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Gwelwyd tystiolaeth fod y gofrestr wedi ei diweddaru yn ddiweddar. Gwelwyd fod trefn effeithlon mewn lle er mwyn nodi addasiadau ac ychwanegiadau sydd wedi eu gwneud i'r gofrestr risg. Darganfuwyd fod trefniadau cadarn mewn lle er mwyn trafod cynnydd y prosiect GwyriAD gyda chyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt yn cael eu cynnal yn fisol. Wrth edrych ar sampl o'r risgiau sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr risg gwelwyd fod rheolaethau priodol wedi eu cymryd er mwyn ceisio diogelu rhag y risgiau hyn. Gwelwyd fod rhai risgiau yn y gofrestr angen eu haddasu ac oherwydd hyn dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r rheolaethau sydd eisoes mewn lle gyda chofrestr risg Prosiect GwyriAD.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb cofrestr risg Cynllun GwyriAD gan fod rheolaethau cadarn mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Rheolwr Prosiect sicrhau ei fod yn asesu'r Gofrestr Risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y gofrestr risg yn gyfredol. Dylid asesu'r gofrestr risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y risgiau wedi derbyn sgôr risg priodol a bod yr holl risgiau wedi eu cynnwys. Dylid sicrhau pan gaiff y gofrestr risg ddrafft ei gymeradwyo gan y tîm rheoli dylid diweddaru'r cofnod o newidiadau a wnaed i'r gofrestr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed.**

- **Awgrymir dylid cynnwys y risg fod y tywydd yn cael effaith anffafriol ar adeiladu'r cyfleuster yn y gofrestr risg ac adlewyrchu'r effaith posibl ar yr amserlen.**

- **Awgrymir dylid addasu'r sylwadau yn y golofn 'Actions' ar gyfer risg rhif 26 gan fod y lefel risg bellach wedi ei addasu yn dilyn adnewyddu'r gofrestr risg.**

# TREFNIADAU TG I AELODAU
## Strategol a Gwella

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau TG i aelodau yn cydymffurfio â'r hyn a gymeradwywyd gan Fwrdd y Cyngor ym mis Mawrth 2012. Sicrhau bod aelodau wedi derbyn cyfarwyddiadau a hyfforddiant o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig gyda threfniadau TG y Cyngor a bod cytundeb mewn lle sy'n datgan bod aelodau yn derbyn polisïau defnydd TG Cyngor Gwynedd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwiriwyd yn yr archwiliad bod y trefniadau TG yn cydymffurfio â'r hyn a gymeradwywyd gan Fwrdd y Cyngor ym mis Mawrth 2012 gan ymholi pa gyfarwyddiadau a hyfforddiant mae aelodau'r Cyngor wedi ei dderbyn. Gwiriwyd os yw'r cyfarpar TG mae aelodau yn ei dderbyn yn ddigonol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a bod cytundeb mewn lle sy'n datgan bod aelodau yn derbyn perchnogaeth cyfarpar TG a'r polisïau sydd ynghlwm.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod llawer o adnoddau wedi eu neilltuo i weithredu'r Cynllun TG uchelgeisiol ar gyfer Aelodau. Mae darpariaeth sylweddol ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth mewn lle ac mae'n amlwg fod swyddogion yn benderfynol i'r Cynllun fwrw ymlaen yn llwyddiannus.
Ar adeg yr archwiliad, nid oedd modd datgan fod holl amcanion y Cynllun am gael eu gwireddu gan nad yw'r cynllun newydd wedi ei weithredu'n llawn na'r trefniadau blaenorol wedi eu terfynu. Nid oes modd asesu arbediad arian mewn perthynas ag argraffu cofnodion gan nad yw'r trefniant o'u cynhyrchu wedi dod i ben. Ymddengys na fu trefn o gasglu a gwerthuso dyfynbrisiau o flaen llaw.
Mae'r asesiad o pa dechnoleg i fuddsoddi ynddo wedi ei seilio ar adolygiad gan awdurdod arall mewn ymdrech i beidio dyblygu gwaith ond mae agweddau, megis maint y sampl a aseswyd, yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb yr asesiad hwnnw ar gyfer Cyngor Gwynedd.
Mae'n ymddangos fod canran uchel o Aelodau yn ymdrechu i fabwysiadu'r Cynllun newydd, ond mae rhai yn gyndyn i ddefnyddio e-bost y Cyngor ac eraill yn cael trafferth ymdopi â'r dechnoleg. Mae'r achosion yma am amharu ar allu'r Cyngor i gyrraedd ei amcanion ac am danseilio'r mesurau diogelwch y mae'r Cynllun yma yn ei gynnig. Mae'r Cynllun presennol yn cymryd lle cynllun blaenorol oedd wedi methu yn rhannol oherwydd diffyg cyfranogiad Aelodau ynddo. Mae angen i'r Cyngor asesu pam fod sefyllfa fel hyn yn codi a chymryd camau ymarferol i ymateb i unrhyw faterion neu ofidion fel nad yw'r Cynllun presennol yn methu.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau TG i aelodau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cynnal adolygiad i asesu pam nad yw unigolion yn barod i ddefnyddio'r technoleg y mae'r Cyngor yn ei fuddsoddi ynddo ar eu cyfer a chymryd camau i ymateb i unrhyw faterion a lleddfu unrhyw bryderon er mwyn sicrhau nad yw'r Cynllun presennol, ac unrhyw gynlluniau dilynol yn methu.**

- **Dylid rhagweld achosion lle bydd archeb sylweddol o galedwedd neu feddalwedd TG er mwyn cyflawni gofynion cynllun penodol a chyflawni proses o gasglu dyfynbrisiau a sefydlu cytundeb gyda cyflenwyr ar ei gyfer.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 IONAWR 2013** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2012/13.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2012/13 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 31 Rhagfyr 2012 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 22 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 4 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 10 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 3 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 57 |
| Wedi ei gau | 1 |
| Cyfanswm | 99 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 11 |

2.2 Targed perfformiad 2012/13 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2013. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 15% |
| Diwedd chwarter 2 | 35% |
| Diwedd chwarter 3 | 60% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod fod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd y trydydd chwarter yn **58.59%** yn erbyn targed o 60%. Roedd y gwir gyrhaeddiad, felly, ychydig yn isel o'r targed chwarterol.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Yn ychwanegol i addasiadau sydd wedi eu hadrodd i gyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio, yn sgil adolygiad o ddatblygiad rhai prosiectau o fewn y Cyngor, a thrafodaethau gyda penaethiaid adran a swyddogion allweddol eraill, bu nifer o addasiadau i'r Cynllun Archwilio yn ystod y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2012.

3.2 Mae'r tablau isod yn crynhoi'r addasiadau hyn, yn ogystal â chyflwyno rhesymau dros y newidiadau.

**Tabl 1: Archwiliadau sydd wedi eu tynnu o'r cynllun:**

| Teitl | Rheswm | Effaith (dyddiau) |
|---|---|---|
| Cyllidebau Lleol *(Corfforaethol)* | Pan luniwyd y cynllun archwilio gwreiddiol, roedd disgwyliad y byddai Cyllidebau Lleol wedi eu cyflwyno yn unol â Chynllun Tair Blynedd gwreiddiol 2011-2014. Nid ydynt wedi eu mabwysiadu eto, felly nid yw'r maes yn aeddfed i'w archwilio. | **-10** |
| System eGaffael *(Cyllid)* | Er fod y system eGaffael wedi ei gyflwyno, ym marn Archwilio Mewnol mae angen datblygiad pellach cyn y bydd archwiliad system llawn yn cynnig gwerth ychwanegol. | **-20** |
| Sicrwydd Ansawdd Data a Gwybodaeth *(Darparu a Hamdden)* | Roedd hyn yn ymglymedig â datblygiadau pellach i'r system CACI. Bu penderfyniad gan yr Adran i beidio symud ymlaen â'r camau hyn am y tro, felly nid oes budd mewn cynnal archwiliad mewnol yn y maes. | **-20** |
| Prosiect Rhesymoli Darpariaeth Anabledd Dysgu *(Darparu a Hamdden)* | Bu llawer o newidiadau yn y maes gofal ers llunio'r cynllun archwilio mewnol gwreiddiol, ac mae'r newidiadau hyn yn parhau. Fel canlyniad, penderfynwyd y byddai'n well defnydd o adnoddau Archwilio Mewnol i adolygu meysydd eraill, fel a nodir yn Tabl 3 isod. | **-10** |
| Cynllun Rheoli Asedau *(Gofal Cwsmer)* | Gan fod y Cynllun Rheoli Asedau yn parhau i gael ei adolygu yn ystod 2012/13, penderfynwyd symud yr archwiliad i 2013/14 er mwyn rhyddhau adnoddau i gynnal archwiliadau newydd, o flaenoriaeth uwch, fel a nodir yn Tabl 3 isod. | **-20** |
| Partneriaeth Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)* | Er fod hwn wedi ei gynnwys yn y cynllun archwilio gwreiddiol ar gais yr Adran, nid oes cynnydd digonol wedi bod i warantu defnyddio adnoddau Archwilio Mewnol arno. | **-10** |
| Comisiynu ar y Cyd gyda BILIPBC *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)* | Bu archwiliad llwyddiannus ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2011/12. Fodd bynnag, ar ôl trafod gyda swyddogion o wasanaeth Archwilio Mewnol y Bwrdd Iechyd daethpwyd i'r casgliad mai cyfyngedig yw'r sgôp am waith pellach yn 2012/13 o ystyried y gwaith a gyflawnwyd eisoes. | **-25** |
| Uned Cefnogi Systemau Gofal *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)* | Roedd bwriad sefydlu uned ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn. Nid yw'r cynllun wedi symud ymlaen, felly nid oes sgôp am archwiliad ar hyn o bryd. | **-10** |

**Tabl 2: Archwiliadau ble mae'r dyddiau yn y cynllun wedi eu lleihau:**

| Teitl | Rheswm | Effaith (dyddiau) |
|---|---|---|
| Gwerthusiad o'r Peilot Cyfryngau Cymdeithasol *(Gofal Cwsmer)* | Adroddwyd i gyfarfod 22 Tachwedd o'r Pwyllgor Archwilio fod 20 diwrnod wedi eu clustnodi ar gyfer yr archwiliad yma. Yn dilyn ceisiadau am archwiliadau eraill, ac wedi ymchwilio i faint yr archwiliad yma, penderfynwyd fod 15 diwrnod yn ddigonol ar gyfer y gwaith. | **-5** |
| Rheoli Risg Corfforaethol *(Cyllid)* | Penderfynwyd defnyddio 2 ddiwrnod ar gyfer cynnal adolygiad byr, penodol, o'r Polisi Tywydd Garw. | **-2** |

**Tabl 3: Archwiliadau wedi eu hychwanegu i'r cynllun:**

| Teitl | Rheswm | Effaith (dyddiau) |
|---|---|---|
| Ansawdd Gohebiaeth *(Corfforaethol)* | Mae'r archwiliad yma wedi ei ychwanegu i'r cynllun wedi asesiad o gais gan y Pennaeth Gofal Cwsmer, yn dilyn yr archwiliad *Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth*. | **+5** |
| Gwiriadau CRB Staff *(Corfforaethol)* | Mae'r archwiliad yma wedi ei ychwanegu i'r cynllun fel rhan o waith ehangach o adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Bwriedir cynnal archwiliad annibynnol o'r drefn o gynnal gwiriadau CRB ar staff perthnasol fel rhan o'r broses recriwtio a phenodi. | **+25** |
| Telerau Contractau - Gwiriadau CRB *(Corfforaethol)* | Fel datblygiad pellach i'r archwiliad uchod, derbyniwyd cais gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden i gynnal adolygiad i sicrhau fod contractwyr sydd yn gweithio i'r Cyngor yn cwrdd â'u hoblygiadau o safbwynt cynnal gwiriadau CRB ar eu staff hwythau. Mae'r gwaith o lunio sgôp yr archwiliad yma yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. | **+25** |
| Llywodraeth Cymru - Trefniadau Prosesu Cyllid Myfyrwyr *(Addysg)* | Derbyniwyd cais gan Lywodraeth Cymru fod Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad ar drefniadau'r Adran Addysg i weinyddu Cyllid Myfyrwyr. Nodir fod hwn yn gais sydd wedi ei anfon i bob cyngor yng Nghymru, ac nid yw yn adlewyrchiad o ganfyddiad y Llywodraeth am drefniadau Gwynedd. | **+10** |
| Gwaith Ymgynghorol - Safle Mewnrwyd yr Adran Gyllid *(Cyllid)* | Ar ôl penodi swyddogion dros dro yn Archwilio Mewnol yn ystod haf 2012, penderfynwyd ymgorffori'r dasg yma i mewn i'r cynllun archwilio, a'i nodi fel gwaith ymgynghorol (yn hytrach na chyflogi unigolyn ar wahân i ymgymryd â'r dasg). | **+10** |
| Cysoni Banc y System Incwm *(Cyllid)* | Ymhellach i adolygiad Archwilio Mewnol ar reolaethau allweddol y System Cysoni Banc yn Chwefror 2012, ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2012, penderfynwyd cynnal adolygiad pellach gan Archwilio Mewnol yn ystod 2012/13 er mwyn sicrhau fod y rheolaethau yn gweithio'n effeithiol erbyn hyn. | **+10** |
| Polisi Tywydd Garw *(Gofal Cwsmer)* | Fel rhan o waith ehangach ar y drefn Rheoli Risg Corfforaethol, penderfynwyd y byddai'n amserol rhoi sylw penodol i'r Polisi Tywydd Garw. | **+2** |
| Cyllid Cleientau *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)* | Roedd hwn yn archwiliad oedd wedi ei raglennu i'w gynnal yn ystod 2013/14, ond gan fod archwiliadau eraill wedi eu canslo am resymau y nodir uchod, fe'i symudwyd ymlaen i 2012/13. | **+15** |
| Cyflogau a Threuliau Aelodau *(Strategol a Gwella)* | Roedd hwn hefyd yn archwiliad oedd wedi ei raglennu i'w gynnal yn ystod 2013/14, ond oherwydd fod newidiadau sylweddol yn y trefniadau gwleidyddol wedi cynyddu'r risg o gamgymeriadau, penderfynwyd y byddai'n ddefnydd priodol o amser archwilio mewnol i gynnal yr adolygiad yma yn ystod 2012/13. | **+20** |
| Gwireddu Prosiectau Arbed *(Strategol a Gwella)* | Mae hwn yn faes allweddol i'r Cyngor. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden ar wahân, ond penderfynwyd y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad o'r trefniadau yng ngweddill y Cyngor yn ystod 2012/13 hefyd. | **+10** |

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2012/13, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2012/13

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-03/2013 | Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **32.89** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-03/2013ans | Ansawdd Gohebiaeth | 0.00 | 5.00 | **5.00** | **0.81** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-08/2013ynni | Defnydd Ynni | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **10.02** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2013gw | Cynllunio'r Gweithlu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.46** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-11/2013CRB | Gwiriadau CRB Staff | 0.00 | 25.00 | **25.00** | **9.74** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-14/2013 | Swyddogaethau Rheolwyr Safle | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **28.67** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2013 | Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.62** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CTRT-02/2013 | Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC PQQ2 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.70** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CTRT-03/2013tai | Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **2.51** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CTRT-06/2013 | Telerau Contractau - Gwiriadau CRB | 0.00 | 25.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-GRANT-AMG/2013cmac | Grant - Canolfan Monitro Arfordir Cymru | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.97** | Adroddiad Terfynol |
| 1-GRANT-AMG/2013fial | Grant - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.77** | Adroddiad Terfynol |
| 2ADN-ADY-GWY/2013 | Cofnodi a Rheoli Gwyliau | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **28.00** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-04/2013tr | Gweinyddu Anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **14.78** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-03/2013ll | Cyllidebau Lleol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| AO-ARL-01/2013 | Cardiau Credyd Barclaycard | 14.00 | 0.00 | **14.00** | **16.66** | Adroddiad Terfynol |
| AO-ARL-05/2013 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **28.45** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BC-PER-07/2013 | Recriwtio - Profion Hunaniaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.20** | Adroddiad Terfynol |
| BE-POL-07/2013 | Cytundeb Canlyniadau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.73** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2013ases | Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **6.09** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013bao | Grant Blas am Oes | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **17.97** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013brec | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **8.99** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2013ffg | Grant Gofal Plant Ysgolion Ffocws Cymunedol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.09** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4-DAT-X-ADD/2013ks23 | Grant Refeniw 2011-12 y Cyfnod Sylfaen | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.45** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ELWa/2013 | Grant Addysg ôl-16 | 1.00 | 0.00 | **1.00** | **0.95** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA23/2013 | Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.40** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA26/2013 | Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.26** | Wedi ei gynllunio |
| EADDU01/2013 | Llywodraeth Cymru - Trefniadau Prosesu Cyllid Myfyrwyr | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **0.27** | Wedi ei gynllunio |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA33/2013 | Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.21** | Adroddiad Terfynol |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA16/2013 | Penodiadau Llanw | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **23.75** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2013a | Ysgolion Cynradd – Trefn diswyddo oherwydd gormodedd | 22.00 | 0.00 | **22.00** | **0.00** | Wedi ei gynllunio |
| EADDAYC/2013b | Ysgolion Cynradd - Diogelwch Gwybodaeth | 22.00 | 0.00 | **22.00** | **24.11** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2013c | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **ADNODDAU DYNOL** | | | | | | |
| **Uned Cefnogol** | | | | | | |
| BC-PER-05/2013 | Gweinyddu Benthyciadau Car | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **16.38** | Adroddiad Terfynol |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2013 | Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.86** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| AO-ARL-09/2013 | Gwaith Ymgynghorol - Safle Mewnrwyd yr Adran Gyllid | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **1.42** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Archwilio a Risg** | | | | | | |
| AM-YS-03/2013 | Rheoli Risg Corfforaethol | 10.00 | -2.00 | **8.00** | **4.65** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2013br | Cysoni Banc y System Incwm | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **0.00** | Wedi ei gynllunio |
| AD-DY-01/2013kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **14.38** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-01/2013e | System eGaffael | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| AE-TAL-01/2013kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2013kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.19** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AN-ACY-02/2013pr | Prif System Gyfrifo - Prosiect Uwchraddio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.74** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2013bacs | Cyflogau - rhediadau BACS | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.57** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-01/2013er | Adroddiadau Eithriad y System Gyflogau | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.43** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-01/2013hon | Defnydd Honoraria | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **8.18** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| AL-CYF-01/2013kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.37** | Wedi ei gynllunio |
| AL-CYF-01/2013par | System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.77** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-07/2013 | System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **10.73** | Adroddiad Terfynol |
| AL-CYF-14/2013caci | Cyflogau Gofalwyr Cartref - Rhyngwyneb Cyborg - CACI | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AA-AR-01/2013paye | System paye.net | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.59** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AA-AR-03/2013 | Derbyn incwm mewn swyddfeydd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **16.20** | Adroddiad Terfynol |
| AB-BD-01/2013dis | Budd-daliadau Dewisol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.46** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AB-BD-01/2013kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.70** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2013kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-01/2013sac | Rheolaethau TG Systemau Treth Cyngor, Budd-daliadau a Treth Di-annedd (Dilyniant i archwiliad SAC) | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.43** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2013kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **8.42** | Adroddiad Terfynol |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | | | | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | | | | | |
| M-GMG-GW01/2013 | Sicrwydd Ansawdd Data a Gwybodaeth | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **2.87** | Wedi ei ganslo |
| **Glanhau a Gofalwyr Adeiladau** | | | | | | |
| M-GMG-J02/2013 | Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **17.00** | Adroddiad Terfynol |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| GDARP-D07/2013 | Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest a Cyfrif y ty | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.79** | Adroddiad Terfynol |
| GDARP-D08/2013 | Prosiect Rhesymoli Darpariaeth Anabledd Dysgu | 10.00 | -10.00 | **0.00** | **2.97** | Wedi ei ganslo |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2013c | Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **23.14** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BE-POL-10/2013gen | Cynllun Genesis | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **17.68** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| BE-POL-10/2013pre | Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **2.77** | Wedi ei gynllunio |
| BE-POL-10/2013tiw | Cynllun Taith i Waith | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.85** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-C04/2013 | Cymunedau'n Gyntaf | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.66** | Wedi ei gynllunio |
| **Ieuenctid** | | | | | | |
| EADDI01/2013clwb | Clybiau Ieuenctid | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **32.01** | Adroddiad Terfynol |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2013a | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.36** | Wedi ei gynllunio |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | | | | | |
| DDAT-AD06/2013 | Llwyddo'n Lleol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.89** | Wedi ei gynllunio |
| DDAT-AD06/2013pot | Cynllun "Potensial" | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.55** | Adroddiad Terfynol |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2013r | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.82** | Adroddiad Terfynol |
| **GOFAL CWSMER** | | | | | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2013tyw | Polisi Tywydd Garw | 0.00 | 2.00 | **2.00** | **1.64** | Adroddiad Terfynol |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-01/2013 | Gwerthusiad o'r Peilot Cyfryngau Cymdeithasol | 0.00 | 15.00 | **15.00** | **4.66** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-04/2013 | Rheoli Newid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.26** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-06/2013a | Cleiant Tenau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.47** | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-08/2013 | Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.76** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-09/2013 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| 1-CTRT-04/2013b | Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.34** | Crewyd Papurau Gwaith |
| BA-EID-02/2013 | Cynllun Rheoli Asedau | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| BA-EID-02/2013leg | Trefniadau Gwarchod rhag Legionella | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **22.53** | Adroddiad Terfynol |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-PART/2013a | Partneriaeth Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 5-GOF-GCY-PART/2013c | Tai Gofal Ychwanegol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **9.73** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5-GOF-PaPh-1/2013 | Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | 25.00 | 15.00 | **40.00** | 46.86 | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-CYLL/2013 | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 25.66 | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-CYMD/2013 | Grant Pecyn Camau Cyntaf | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 3.89 | Adroddiad Terfynol |
| GCC-01/2013 | Safon 7 y Fframwaith Comisiynu | 0.00 | 5.00 | **5.00** | 6.37 | Wedi ei gau |
| GCC-05/2013 | Comisiynu ar y Cyd gyda BILIPBC | 25.00 | -25.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| GRH-GW01/2013ff | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| GRH-GW02/2013br | Uned Rheoli Asedau Clientau - Bancio Rhyngrwyd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 6.28 | Adroddiad Terfynol |
| GRH-GW02/2013cc | Cyllid Cleientau | 0.00 | 15.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| GTG-SYS01/2013 | Uned Cefnogi Systemau Gofal | 10.00 | -10.00 | **0.00** | 1.86 | Wedi ei ganslo |
| **Busnes** | | | | | | |
| 5-GOF-BUS/2013all | Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | 41.93 | Adroddiad Drafft |
| GGWAS-D02/2013 | Gwasanaeth Broceriaeth | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 17.93 | Adroddiad Terfynol |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| GGWAS-P05/2013llety | Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 3.89 | Gwaith Maes ar y gweill |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2013 | Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 14.64 | Adroddiad Terfynol |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| PBW-07/2013 | Glanhau Strydoedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 17.02 | Adroddiad Terfynol |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-A55-01/2013 | Gweithfeydd - Cytundeb A55 | 25.00 | 0.00 | **25.00** | 26.84 | Adroddiad Terfynol |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-03/2013 | Cynllun GwyriAD | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 17.03 | Adroddiad Terfynol |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| BB-YSG-11/2013 | Uned Trwyddedu | 12.00 | 0.00 | **12.00** | 20.61 | Adroddiad Terfynol |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 1-GRANT-AMG/2013gtc | Grant - Gwasanaeth Trafnidiaeth Lleol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 7.97 | Adroddiad Terfynol |
| 3-PROJ-TRAF/2013briw | Prosiect Pont Briwet | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 6.86 | Crewyd Papurau Gwaith |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3-PROJ-TRAF/2013trac | Partneriaeth TraCC | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.38** | Gwaith Maes ar y gweill |
| DDAT-CC-01/2013cy | Cludiant Cymunedol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |

**STRATEGOL A GWELLA**

**Democratiaeth**

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BB-YSG-18/2013ex | Cyfarpar gan Cyn-aelodau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.14** | Adroddiad Drafft |
| BB-YSG-18/2013tg | Trefniadau TG i aelodau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.62** | Adroddiad Terfynol |
| BE-POL-14/2013 | Cyflogau a Threuliau Aelodau | 0.00 | 20.00 | **20.00** | **3.88** | Wedi ei gynllunio |

**Perfformiad a Chraffu**

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1-CORFF-05/2013a | Gwireddu Prosiectau Arbed | 15.00 | 10.00 | **25.00** | **1.74** | Wedi ei gynllunio |

**YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

**Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu**

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3-YMG-CTRT/2013fa | Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.59** | Adroddiad Terfynol |
| 3-YMG-CTRT/2013pen | Penodi Contractwyr Peirianyddol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.32** | Adroddiad Terfynol |
| 3-YMG-CTRT/2013pont | Pontydd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.65** | Adroddiad Terfynol |

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 IONAWR 2013** |
| TEITL | **STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LYGREDIGAETH A GWRTH-GWGRWOBRYWO CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LYGREDIGAETH A GWRTH-LYGREDD A'R CYNLLUN YMATEB I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **MABWYSIADU'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN A DATGAN CEFNOGAETH I'W CYNNWYS** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mabwysiadwyd y Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-Lygredigaeth a Chynllun Ymateb i Dwyll blaenorol gan y Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2009. Roedd y Strategaeth hwnnw yn cymryd lle strategaethau blaenorol oedd yn eu lle ers sawl blwyddyn.

1.2 Roedd y Strategaeth flaenorol yn cydnabod y gallai Cyngor Gwynedd, fel unrhyw gorff cyhoeddus arall sydd yn ymdrin ag arian sylweddol, fod yn destun ymdrechion i dwyllo neu ymdrechion i ddylanwadu ar swyddogion a/neu aelodau mewn modd lwgr. Gall hyn gael ei weithredu, neu ei ymgeisio, gan unigolion o'r tu allan i'r Cyngor, gan staff, gan aelodau neu gyfuniad o'r rhain yn cyd-gynllwynio. Yn dilyn Deddf Llwgrwobrwyo 2010, daeth angen i ddiweddaru'r Strategaeth er mwyn cydnabod y gofynion diweddaraf.

1.3 Mae'r Strategaeth yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu yr awdurdod, ac mae ei fabwysiadu, ei hyrwyddo a'i weithredu yn gamau hanfodol i ennyn hyder y cyhoedd am ddiogelwch arian y trethdalwr. Mae'n adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i warchod ei hun rhag twyll a llygredd a'r bwriad yw sicrhau safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus.

1.4 Mae Strategaeth 2013-2016 yn cynnwys Cynllun Gweithredu er mwyn hybu'r ddogfen a'r negeseuon sydd ynddo, fel bod y cyfrifoldebau a amlinellir ynddo yn wybyddus i bawb perthnasol.

1.5 Mae'r dogfennau yn adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i warchod ei hun rhag gweithgareddau twyllodrus a llwgr a'i ymrwymiad i sicrhau safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus.

## 2. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL A GWRTH-LYGREDIGAETH

2.1 Pwrpas y Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth yw darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o safbwynt ei agwedd tuag at dwyll a llygredd a'r rhai sydd yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, twyll neu lygredd yn erbyn Cyngor Gwynedd a'r trethdalwr. Mae wedi'i ddylunio i gyflawni'r hyn a ganlyn:

- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
- Hyrwyddo atal twyll;
- Hyrwyddo canfod twyll;
- Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

2.2 Er mwyn sicrhau fod y Strategaeth yn effeithiol wrth gyflawni ei amcanion, bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau rheolaidd, oddeutu pob 6 mis, ar ymdrechion y gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredigaeth y Cyngor.

## 3. CYNLLUN YMATEB I DWYLL A LLYGREDIGAETH

3.1 Mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll i'w ddarllen ar y cyd â'r Strategaeth, ac yn gosod allan yr hyn y dylai staff a/neu rheolwyr ei wneud pan maent yn amau fod twyll neu lygredigaeth yn digwydd, a'r camau ymarferol y bydd y Cyngor yn eu dilyn er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r ddogfen yn gosod allan yr hyn sydd angen i'r canlynol ei wneud pan maent yn darganfod neu'n amau twyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth:

- Staff
- Rheolwyr
- Archwilwyr

3.2 Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu gan roi sylw dyledus ac ystyriaeth i nifer o bolisïau a gweithdrefnau eraill o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb, gan gynnwys:

- Yr amodau gwaith lleol
- Polisi Datgelu ("Canu'r Gloch")
- Polisi Disgyblaeth
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol

3.3 Mae'r Cynllun Ymateb yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn gweithredu er mwyn ymchwilio i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth, gan gynnwys sut mae hyn yn plethu gyda Polisi Disgyblu yr Awdurdod.

3.4 Mae cynllun hefyd yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn gweithredu, a'r opsiynau sy'n rhaid eu hystyried, pan fydd tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth wedi cael ei gasglu, gan gynnwys disgyblaeth fewnol a/neu erlyniad troseddol neu sifil, neu gyfuniad o'r rhain.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygrediaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, a'u mabwysiadu'n ffurfiol.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ddatgan cefnogaeth i'r dogfennau ac i gefnogi aelodau a swyddogion y Cyngor wrth eu gweithredu.

**CYNGOR GWYNEDD**

**STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRWYO A GWRTH-LYGREDIGAETH**

**2013 – 2016**

## 1. CYFLWYNIAD

Wrth gwblhau ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu diwylliant o fod yn agored a theg bob amser. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd Aelodau Etholedig, staff, ymgynghorwyr, cyflenwyr, contractwyr a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid yn mabwysiadu'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd.

O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo'n llawn i ymdrin â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth a bydd yn ymdrin yn gydradd â'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd, boed iddynt fod yn fewnol neu'n allanol i'r Cyngor. Pan fo twyll o unrhyw fath yn cael ei ganfod, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal a chymerir camau priodol i erlyn, disgyblu ac adfer.

**Bydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu a chynnal agwedd o beidio goddef unrhyw Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth.**

Rhan bwysig o'r dull hwn yw cynnal Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth y bydd y Cyngor yn ei defnyddio i gynghori ac arwain Aelodau Etholedig a staff ar y dull fydd yn cael ei ddefnyddio i ymdrin ag achosion difrifol o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

## 2. PWRPAS

Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o ran y mater hwn ac mae'n cynnwys Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth sy'n darparu arweiniad manylach ar sut i ymdrin â thwyll a llygredigaeth. Mae wedi'i ddylunio i gyflawni'r canlynol:

- Egluro'r hyn y mae'r Cyngor yn ei olygu o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Gosod y safonau y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei Aelodau Etholedig a'i staff;
- Hyrwyddo atal twyll;
- Hyrwyddo canfod twyll;
- Dangos sut y bydd y Cyngor yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

## 3. DIFFINIADAU

### Twyll

Cyflwynodd Deddf Twyll 2006, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2007, drosedd gyffredinol newydd o dwyll ynghyd â thair ffordd o gyflawni'r drosedd honno:

- **Twyll trwy gynrychiolaeth ffug** – pan fo unigolyn yn gwneud cynrychiolaeth anonest, bwriadol sy'n anwir neu'n gamarweiniol.
- **Twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth yn fwriadol** – pan fo unigolyn yn methu datgelu gwybodaeth yn fwriadol ac anonest i berson arall pan fo ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny, neu pan fo'r wybodaeth yn wybodaeth y disgwylir iddynt ei datgelu, neu y byddai disgwyliad rhesymol arnynt i'w datgelu.
- **Twyll trwy gamddefnyddio eu swydd** – pan fo unigolyn sydd wedi'i benodi i swydd ble y disgwylir iddynt amddiffyn buddiannau ariannol person arall yn camddefnyddio'r swydd honno yn anonest a dirgel yn ddiarwybod i'r person arall.

Gall y math o dwyll y gallai'r Cyngor ei ddioddef gynnwys yr hyn a ganlyn (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

**Twyll trwy gynrychiolaeth ffug:**

- hawlio costau teithio neu hawlio taliadau goramser ffug neu sydd wedi'u gorliwio,
- anfonebau'n cael eu cyflwyno am wasanaethau na chafodd eu derbyn,
- bod mewn cyflogaeth arall pan fo rhywun wedi derbyn llythyr salwch gan feddyg i beidio â dod i'r gwaith,
- cofnodi oriau anghywir ar y cynllun oriau ystwyth.

**Twyll trwy fethu datgelu gwybodaeth yn fwriadol**

- Methu datgelu gwybodaeth am gollfarn droseddol berthnasol neu anhreuliedig ar ffurflen gais am swydd,
- Contractwyr yn methu datgelu gwybodaeth am erlyniadau Iechyd a Diogelwch ar ddogfennau tendr,
- Dweud bod gwerth asedau'r Cyngor yn llai na'r gwir werth cyn eu gwaredu i aelod o'r teulu, ffrind neu chi'ch hun.

**Twyll trwy gamddefnyddio eu sefyllfa**

- Gellir dadlau bod y rhan fwyaf o dwyll sy'n ymwneud ag arian y Cyngor yn syrthio i mewn i'r categori hwn gan fod aelodau'r Cyngor a'i staff yn cael eu rhoi yng ngofal arian cyhoeddus ac yna'u bod yn camddefnyddio eu safle yn y sefydliad er mwyn hwyluso'r drosedd (gweler "Twyll Mewnol" isod). Byddai troseddau penodol dan y pennawd hwn yn cynnwys gofalwyr yn dwyn o gartrefi cleientiaid gofal cartref, neu rhoi contractau i ffrindiau a / neu aelodau o'ch teulu trwy dwyll.

Yn yr holl gategorïau uchod, mae'r Ddeddf Twyll yn amlinellu dau ofyn sylfaenol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cyhuddo unigolyn o unrhyw un o'r troseddau uchod: rhaid i ymddygiad y diffynnydd fod yn anonest a rhaid iddo ef / iddi hi fod wedi bwriadu cael budd neu achosi colled (neu fod mewn perygl o achosi colled) i rywun arall. O ganlyniad, o ran ymddygiad sy'n berthnasol i'r Strategaeth hon:

- Nid oes rhaid i unrhyw golled neu fudd gael eu gwireddu – ystyrir bod bwriadu cael budd neu achosi colled yn weithred o dwyll
- Nid oes rhaid i'r person sy'n gwneud y weithred o dwyll fod ar ei ennill – gallai weithredu er budd rhywun arall
- Mae "budd" a "cholled" yn cael eu diffinio yn Rhan 5 Deddf Twyll – gallai fod yn arian neu'n eiddo arall (boed yn real, yn bersonol, yn ddiriaethol neu'n anniriaethol), gallai fod yn barhaol neu dros dro ac:

  mae "budd" yn cynnwys cael budd trwy gadw'r hyn sydd gennych, ynghyd â chael budd trwy gael yr hyn nad oes gennych, ac mae "colled" yn cynnwys colled trwy beidio â chael yr hyn y gallwch ei gael, ynghyd â cholled trwy golli'r hyn sydd gennych yn barod.

**Twyll Mewnol ac Allanol**

Yn y Strategaeth yma, diffinnir "Twyll Mewnol" fel twyll sy'n cael ei gyflawni gan staff y Cyngor neu ei aelodau, gyda bwriad o achosi colled i Gyngor Gwynedd, ble bo'r twyll wedi'i gyflawni neu'i hwyluso o ganlyniad i safle unigolyn neu grŵp yn y sefydliad. Diffinnir "Twyll Allanol" fel twyll sy'n cael ei gyflawni gan unigolion y tu allan i'r sefydliad, neu y tu allan i faes gwaith arferol aelod o staff, gyda golwg ar achosi colled i'r Cyngor.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n hawdd canfod a yw'r weithred o dwyll yn "fewnol" neu'n "allanol" ond mewn rhai achosion, gall y sefyllfa fod yn fwy amwys gan y gall aelod o staff neu aelod o'r Cyngor gyflawni twyll allanol a thwyll mewnol yn erbyn yr awdurdod. Er enghraifft, ystyrir bod aelod o staff y Cyngor sy'n gwneud cais am grant profi modd ond sy'n dal gwybodaeth benodol yn ôl yn fwriadol, a fyddai'n effeithio ar swm y grant a delir, yn "dwyll allanol". Fodd bynnag, pe bai aelod o staff sy'n chwarae rhan yn y broses o weinyddu'r grant yn cymryd mantais o'i swydd er mwyn cyfeirio arian grant ato ef / ati hi ei hun trwy dwyll, ystyrir bod hyn yn "dwyll mewnol".

**Twyll Budd-dal**

Bydd strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer ymdrin â thwyll budd-dal yn wahanol i'r dull y mae'n ei ddefnyddio i ymdrin â thwyll arall a gyflawnir yn erbyn y Cyngor, ac mae y tu allan i gwmpas y Strategaeth yma.

Bydd newidiadau arwyddocaol yn y maes budd-daliadau yn ystod oes y Strategaeth yma, fydd yn golygu newidiadau yn y grymoedd sydd ar gael i ymchwilio i dwyll budd-dal, a bydd cyflwyniad Cynllun Cefnogaeth Treth Cyngor yn 2013 yn golygu gan fydd y gefnogaeth yna bellach yn fudd-dal y gellir ei ymchwilio dan bwerau Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992.

**Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo**

Diffinnir llygredigaeth fel "cynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn cymhelliad neu wobr a allai ddylanwadu ar weithred unrhyw berson".

Deddf Llwgrwobrwyaeth 2010, a ddaeth i rym yng Ngorffennaf 2011, yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â llwgrwobrwyaeth sy'n seiliedig ar Ddeddf Arferion Llwgr Cyrff Cyhoeddus 1889, Deddf Atal Llygredigaeth 1906 a Deddf Atal Llygredigaeth 1916. Dan y Ddeddf yma, mae'r canlynol yn droseddau:

- **Llwgrwobrwyaeth Gweithredol:** cynnig, addo neu rhoi llwgrwobr (Adran 1).
- **Llwgrwobrwyaeth Goddefol:** ceisio, derbyn neu gytuno i dderbyn llwgrwobr (Adran 2).
- **Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor** (Adran 6).
- **Trosedd gorfforaethol o fethiant i atal llwgrwobrwyaeth:** sefydliadau masnachol sy'n methu i atal pobl sy'n gysylltiedig â hwy rhag llwgrwobrwyo ar eu rhan (Adran 7).

Er mwyn gallu amddiffyn yn llawn y drosedd hon, bydd y Cyngor yn rhoi gweithdrefnau digonol ar waith i atal pobl sy'n gysylltiedig ag ef rhag llwgrwobrwyo ar ei ran.

Mae chwech egwyddor y gweithdrefnau a ddylai fod yn eu lle fel a ganlyn:

1. **Gweithdrefnau cymesur:** dylai'r gweithdrefnau a gyflwynir fod yn gymesur â'r risgiau llwgrwobrwyo a wynebir ac â natur, graddfa a chymhlethdod gweithgareddau'r Cyngor. Dylai'r gweithdrefnau hyn hefyd fod yn glir, yn ymarferol, hygyrch, wedi eu gweithredu'n effeithiol a'n cael eu gorfodi.
2. **Ymrwymiad ar y lefel uchaf:** dylai'r Cyngor a'r Cabinet fod wedi eu hymrwymo i atal lwgrwobrwyo gan bersonau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor. Dylid meithrin diwylliant lle nad yw llwgrwobrwyo byth yn dderbyniol.
3. **Asesiad risg:** Caiff natur a graddau'r amlygiad i risgiau allanol a mewnol posibl o lwgrwobrwyo ei asesu. Dylai'r asesiad hwn fod yn gyfnodol, yn wybodus ac wedi ei ddogfennu.
4. **Diwydrwydd dyledus:** gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cymhwyso mewn dull cymesur a seiliedig ar risg, mewn perthynas â phersonau sy'n perfformio neu a fydd yn perfformio gwasanaethau ar gyfer, neu ar ran y Cyngor, er mwyn lliniaru'r risgiau lwgrwobrwyo a nodwyd.
5. **Cyfathrebu (gan gynnwys hyfforddiant):** ceisio sicrhau bod polisïau atal llwgrwobrwyo a gweithdrefnau yn cael eu hymgorffori a'u deall ar draws y Cyngor.
6. **Monitro ac adolygu:** gweithdrefnau dynodedig i atal llwgrwobrwyo yn cael eu monitro a'u hadolygu a gwneir gwelliannau lle bo angen.

**Enillion Troseddol**

Mae Deddf Enillion Troseddol 2002 yn darparu ar gyfer atafaelu neu adennill sifil o'r elw o drosedd, sy'n gofyn am daliad gan yr unigolyn euog yn seiliedig ar y budd a gafwyd o'u troseddau. Mae'r Ddeddf yn caniatáu atafaelu arian, asedau materol ac asedau cudd.

Mae enghreifftiau o'r meysydd ble gall y Cyngor ddefnyddio'r Ddeddf yma yn cynnwys:

- Gorfodaeth Cynllunio.
- Iechyd yr Amgylchedd - tipio anghyfreithlon, dympio anghyfreithlon o deiars.
- Tai - hawliadau ffug gan landlordiaid.
- Iechyd Anifeiliaid - trwydded bridio cŵn.
- Safonau Masnach - gwerthu nwyddau ffug.
- Staff - twyll treuliau.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r achos o dan y Ddeddf Elw Troseddau 2002, rhaid fod unigolyn (neu grŵp o unigolion) fod wedi ei gael yn euog o drosedd yn y llys. Rhaid rhoi ystyriaeth wedyn i allu'r unigolyn i dalu, a'r swm dan sylw.

## 4. DIWYLLIANT

Mae'r Cyngor yn benderfynol bod diwylliant a naws y sefydliad yn onest ac yn wrthwynebus o dwyll a llygredigaeth. Mae'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol bod unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â'r Cyngor mewn unrhyw ffordd yn gweithredu'n onest a bod aelodau etholedig a staff ar bob lefel yn gweithredu mewn ffordd sy'n esiampl dda i eraill.

**Codau Ymddygiad Amrywiol**

Mae "Rheoliadau Côd Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol)(Cymru) 2001" yn nodi dull o weithio sy'n onest a theg. Rhaid i staff weithredu yn unol â'r côd bob amser sy'n cynnwys:

- Egwyddorion Cyffredinol;
- Atebolrwydd;
- Amhleidioldeb Wleidyddol;
- Cysylltiadau ag Aelodau, y Cyhoedd a chyflogeion eraill;
- Cydraddoldeb;
- Stiwardiaeth;
- Buddiannau Personol;
- Chwythu'r Chwiban [h.y. Canu'r Gloch];
- Ymdrin â Gwybodaeth;
- Penodi Staff;
- Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro.

Yn ogystal, mae gan y Cyngor Gôd Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy'n nodi'r egwyddorion canlynol:

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Gwedduster
- Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydraddoldeb a Pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Rhoi Arweiniad

ynghyd â'r ddyletswydd i ddatgelu a chofnodi buddiant personol.

Mae'n ofynnol i bob Aelod Etholedig ac aelodau o staff ddatgan unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r dull y maent yn cwblhau eu dyletswyddau ar ran y Cyngor yn unol â'r Côd Ymddygiad sy'n ymwneud â Rhoddion a Lletygarwch sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor.

**Polisi Canu'r Gloch**

Mae gan aelodau o staff rôl bwysig i'w chwarae o ran ymdrin â thwyll a llygredigaeth a bydd y Cyngor yn annog staff i roi rhybudd a darparu gwybodaeth os ydynt yn amau bod twyll neu lygredigaeth yn digwydd. Gall staff wneud hyn gan fod yn ymwybodol y bydd pryderon o'r fath yn cael eu trin yn gyfrinachol a'u bod yn cael eu hymchwilio'n briodol. Amlinellir y gweithdrefnau adrodd ym mholisi Canu'r Gloch y Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn rhoi dull diogel a dibynadwy i staff er mwyn iddynt adrodd yn onest am unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camymddygiad ariannol, peryglu'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin cleientiaid ac ati. Er bod y meysydd sy'n berthnasol i Bolisi Canu'r Gloch y Cyngor yn llawer ehangach na thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn unig, mae annog pobl i adrodd am ymddygiad o'r fath yn rhan hanfodol o'r polisi hwn.

Anogir aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol i adrodd am bryderon o ymddygiad twyllodrus neu lygredig trwy gysylltu â'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg trwy wefan y Cyngor neu yn ystod ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sy'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd.

**Systemau Rheolaeth Fewnol**

Er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus, mae'n hanfodol bod aelodau o staff yn cydymffurfio â'r systemau a'r dulliau rheolaeth fewnol sydd wedi'u rhoi yn eu lle gan reolwyr er mwyn atal twyll a llygredigaeth. Pan fo twyll neu lygredigaeth yn digwydd o ganlyniad i wendid yn systemau a gweithdrefnau'r Cyngor, bydd Penaethiaid Adran yn sicrhau y gweithredir dulliau rheoli priodol er mwyn atal hynny rhag digwydd eto. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Archwilio Mewnol yn adolygu dulliau rheoli o'r fath fel rhan o'i adolygiad sicrwydd cyffredinol a dylai pob rheolwr ac aelod o staff gefnogi hyn a chydweithredu'n llawn â hyn.

Mae gan reolwyr ddyletswydd ychwanegol i:

- Sicrhau bod staff y maent yn gyfrifol amdanynt yn ymwybodol o'r perygl o dwyll a llygredigaeth.
- Cymryd camau i atal twyll a llygredigaeth gan ddefnyddio dulliau rheoli mewnol a monitro priodol.
- Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt.
- Annog staff i adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn unol â Pholisi Canu'r Gloch y Cyngor.

**Cydweithredu â'r Ymchwilwyr**

Disgwylir i bob aelod etholedig a staff roi'r cymorth angenrheidiol i'r ymchwilwyr, ynghyd â darparu datganiad i'r Heddlu os bydd angen iddynt wneud hynny.

## 5. ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDIGAETH

Mae'r Cyngor yn ceisio atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth trwy:

- Codi ymwybyddiaeth o'r perygl o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Gwneud Aelodau a Staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau;
- Gweithio gydag asiantaethau a chyrff eraill.
- Creu diwylliant ble mae llygredigaeth ac ymddygiad dwyllodrus yn ymddygiad annerbyniol.
- Ceisio, ble'n briodol ac mewn modd cywir, i roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth sydd wedi ei gyflawni yn erbyn yr awdurdod.

Dylai pob Aelod a staff fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai twyll, ,lwgrwobrwyo llygredigaeth a lladrata fod yn digwydd yn eu gweithle a bod yn barod i rannu eu pryderon gyda'r bobl briodol.

Mae'n hanfodol bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer crybwyll pryderon wedi'u nodi'n glir a'u bod ar gael i Aelodau, staff a'r cyhoedd. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd.

Rhaid i Aelodau a staff sicrhau eu bod yn osgoi sefyllfaoedd ble y mae'n bosib y bydd buddiannau'n gwrthdaro. Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd o'r fath:

- Allanoli gwasanaethau;
- Tendro mewnol;
- Cynllunio; a
- Materion yn ymwneud â thir.

**Dulliau Rheoli Mewnol a Sicrwydd Archwilio**

Rheolwyr sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o dwyll a llygredigaeth, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod lefelau addas o wiriadau mewnol yn cael eu cynnwys mewn gweithdrefnau gwaith, yn enwedig mewn gweithdrefnau ariannol. Mae'n hanfodol (ble bo hynny'n ymarferol bosib) bod dyletswyddau'n rhai penodol a'u bod yn cael eu rhannu fel na all unigolion gwblhau taliad cyflawn heb dderbyn mewnbwn a/neu awdurdodiad gan swyddog priodol arall.

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg am unrhyw amheuaeth o dwyll, llygredigaeth ac amhriodoldeb neu dwyll, llygredigaeth ac amhriodoldeb sydd wedi'u canfod (gweler Adran 6, "Canfod Twyll a Llygredigaeth ac Ymchwilio Iddynt), er mwyn hysbysu ei farn ar yr amgylchedd rheoli mewnol a rhaglen waith Archwilio Mewnol ynghyd â gadael iddo sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn wyliadwrus wrth ymgymryd â'u gwaith er mwyn isafu risgiau a nodweddion a allai adael i dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth ddigwydd. Yn ogystal, mae archwilwyr mewnol yn wyliadwrus o unrhyw awgrym bod twyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth wedi bod yn digwydd a byddant yn hysbysu'r swyddogion priodol yn unol â hynny. Fodd bynnag, ni all gweithdrefnau archwilio eu hunain, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu gweithredu â gofal proffesiynol, warantu y bydd twyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth yn cael eu canfod.

**Recriwtio**

Rhaid i'r Cyngor ddilyn gweithdrefnau recriwtio yn ddiogel wrth gyflogi staff newydd neu staff asiantaethau. Mae hyn yn cynnwys adolygu cofnodiadau cyflogaeth blaenorol darpar staff o ran eu priodoldeb, gonestrwydd a'u hunaniaeth. Mae hyn yn berthnasol i staff dros dro a staff parhaol. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio geirda gan gyflogwyr blaenorol ac adolygu'u cymwysterau.

**Cydweithrediad Rhyngasiantaethol**

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i weithio a chydweithredu â sefydliadau eraill er mwyn atal twyll a llygredigaeth sydd wedi'u trefnu. Ble bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn barod i ddatblygu ac annog rhannu gwybodaeth (ar weithgarwch twyll a llygredigaeth lleol a chenedlaethol) gydag awdurdodau eraill ac asiantaethau allanol megis yr Heddlu, grwpiau swyddogion archwilio rhyngasiantaethol, Swyddfa Archwilio Cymru ac adrannau'r Llywodraeth (yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau). Enghraifft amlwg o hyn yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n cael ei gynnal pob 2 flynedd.

Mae cymryd gofal priodol wrth warchod cywirdeb a chyfrinachedd data yn benodol bwysig wrth rannu gwybodaeth. Bydd Archwilio Mewnol yn rheoli rhannu gwybodaeth ac yn cynorthwyo gyda hynny.

## 6. DARGANFOD TWYLL A LLYGREDIGAETH AC YMCHWILIO IDDYNT

Dan y Côd Ymddygiad i Staff[1] a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor[2] rhaid i staff adrodd am unrhyw amheuaeth o dwyll a llygredigaeth i'r Pennaeth Cyllid neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, naill ai'n uniongyrchol neu trwy eu rheolwr llinell. Mae adrodd am achosion yn y modd hwn yn hanfodol i'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth ac yn sicrhau bod:

- Amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn cael eu hymchwilio'n briodol;
- Y Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth yn cael ei weithredu'n briodol;
- Proses safonol ar gyfer ymdrin â phob amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Buddiannau'r cyhoedd a'r Cyngor yn cael eu hamddiffyn;
- Unrhyw sancsiwn posib (troseddol, sifil, disgyblu neu gyfuniad o'r tri) ddim yn cael ei beryglu.

Mae Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig yn nodi y gall Archwilio Mewnol, ar gais rheolwyr, fynd y tu hwnt i'r gwaith sydd ei angen er mwyn bodloni ei ddyletswyddau sicrwydd a chynorthwyo gydag ymchwiliadau i amheuaeth o dwyll neu lygredigaeth.

Er mwyn parhau i gydymffurfio â Chôd Ymarfer Archwilio Mewnol a Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, strategaeth Cyngor Gwynedd o ran ymchwilio i amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yw bod pob achos yn cael ei gyfeirio at Archwilio Mewnol er mwyn cael ei ymchwilio. Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn gweithio gyda rheolwyr ac asiantaethau eraill er mwyn penderfynu ar y math o ymchwiliad a'r trywydd y bydd yn ei ddilyn. Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal gan ddilyn y Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredigaeth.

Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. Er bod y polisi yn nodi nad yw ymchwiliad ffurfiol yn angenrheidiol ar gyfer yr hyn y mae'r rheolwr llinell perthnasol yn ei ystyried fel mân drosedd, ni fydd yr un rheolwr yn ystyried twyll, llwgrwobrwyo, llygredigaeth nac amhriodoldeb ariannol fel mân droseddau. Yn ogystal, mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu yn nodi y bydd manyldeb yr ymchwiliad yn dibynnu'n hollol ar ba mor ddifrifol yw'r honiadau. Bydd rhagdybiaeth o gamau ffurfiol bob amser mewn achosion honedig o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth, a byddant yn cael eu hystyried bob amser i fod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad Archwilio Mewnol swyddogol.

Nodir yr hyn a ganlyn fel enghreifftiau o gamymddygiad llwyr yn y Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu:

- Lladrata oddi wrth y Cyngor neu unrhyw un o gleientiaid y Cyngor.
- Twyll difrifol a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn anaddas i weithio i'r Cyngor.
- Rhoi gwybodaeth gelwyddog ar gofnodiadau yn fwriadol.
- Torri difrifol ar ymddiriedaeth.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gamau dan Ddeddf Enillion Troseddol 2002 ble'n briodol.

---

[1] **Adran 9:** Os digwydd fod cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r cyflogai roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio at y diben hwn.

[2] **Rheol 12.9:** Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredigaeth y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

## 7. HYFFORDDIANT

Mae’r Cyngor yn cydnabod y bydd llwyddiant parhaus y Strategaeth hon a’i hygrededd cyffredinol yn dibynnu’n rhannol ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant sydd wedi’i raglennu ac ymatebolrwydd staff trwy’r sefydliad i gyd.

Yn ystod oes y Strategaeth, bwriedir cynnal hyfforddiant a digwyddiadau sydd wedi eu teilwra’n benodol i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff a rheolwyr am nodweddion twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth all ddigwydd o fewn eu maes gwaith, a’u cyfrifoldebau wrth ymdrin ag amheuon o’r fath.

Ymysg y dulliau y bwriedir eu defnyddio er mwyn gwireddu hyn mae:

- Paratoi crynodeb o’r Strategaeth a Chynllun Ymateb er mwyn cyfathrebu’r prif bwyntiau yn effeithiol
- Defnyddio meddalwedd lledaenu polisïau CALMS er mwyn codi ymwybyddiaeth
- Datblygu cwrs Ymwybyddiaeth o Dwyll i’w gynnwys ar fatrics hyfforddi swyddogion
- Cyflwyniad i’r Coleg Uwch Reolwyr.

Ceir amserlen benodol yn y Cynllun Gweithredu ar dudalen 12.

Yn ogystal, mae’r Cyngor wedi’i ymrwymo i hyfforddi a datblygu staff sy’n ymwneud ag ymchwilio i dwyll a llygredigaeth a bydd yn darparu hyfforddiant addas.

## 8. CASGLIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi’i ymrwymo i daclo twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth; bydd yn ymateb yn effeithiol, yn drefnus ac yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi’u cynnwys yn y ddogfen hon.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei reolau a’i weithdrefnau, ac o ganlyniad, mae’n hanfodol bod y Strategaeth hon yn cael ei hadolygu’n rheolaidd er mwyn cynnal ei heffeithiolrwydd a pharhau i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth.

**Cynllun Gweithredu 2013-2016**

Er mwyn sicrhau fod amcanion a gweledigaeth y Strategaeth yma yn cael eu cyflawni a'u hategu, bwriedir bwrw ymlaen â'r camau canlynol yn ystod 2013 – 2016

| Gweithrediad | Gan bwy? | Amserlen |
|---|---|---|
| Cynnwys gwaith atal twyll rhagweithiol yn y Cynllun Archwilio Mewnol | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 14 Chwefror 2013 |
| Adolygu'r hunan asesiad o wydnwch y Cyngor yn erbyn twyll ("Llyfr Coch" CIPFA) pob chwarter | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 31 Mawrth 2013 ac yn chwarterol wedyn tan 31 Mawrth 2016 |
| Paratoi crynodeb o'r Strategaeth a Chynllun Ymateb i Dwyll mewn arddull sy'n ei wneud yn fwy bachog a diddorol i'r darllenydd | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 31 Mai 2013 |
| Cyflwyno cais i gynnwys eitem ar ymwybyddiaeth twyll ar raglen y Coleg Uwch Reolwyr | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 30 Mehefin 2013 |
| Datblygu cwis yn y system CALMS (meddalwedd lledaenu polisïau) ar gyfer holl staff perthnasol | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 30 Medi 2013 a phob 6 mis wedyn tan 31 Mawrth 2016 |
| Cynnwys eitem ar waith atal twyll ar raglen y Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys canlyniad yr hunan asesiad | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 30 Medi 2013 |
| Datblygu Cwrs Ymwybyddiaeth o Dwyll i swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor, mewn cydweithrediad â'r Uned Dysgu a Datblygu | Uwch Reolwr Archwilio a Risg | 31 Rhagfyr 2013 |
| Mynychu digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan gyrff proffesiynol, a/neu darparu hyfforddiant ar y cyd ag awdurdodau eraill er mwyn uchafu effeithiolrwydd | Arweinyddion Tîm Archwilio Mewnol | Parhaus, fel y maent ar gael |

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNLLUN YMATEB I DWYLL, LLWGRWOBRYWO A LLYGREDIGAETH**

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i ymrwymo i lywodraethu corfforaethol cadarn ac i warchod y cronfeydd cyhoeddus sydd wedi eu hymddiried i'w ofal. Fodd bynnag, weithiau bydd y sawl sy'n cyflawni trosedd yn ddigon penderfynol i ganfod ffordd o weithio o amgylch systemau a gweithdrefnau. Mae isafu unrhyw golledion o ganlyniad i dwyll yn rhan hanfodol o sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i'r dibenion priodol. I'r diben hwn, mae Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth y Cyngor wedi'i datblygu a'i chynnal.

Mae'n rhaid i bob rheolwr fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen pan fyddant yn cael eu hysbysu o amheuaeth o dwyll. Dylid darllen y Cynllun Ymateb i Dwyll hwn ar y cyd gyda'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth sy'n nodi'r broses ar gyfer staff sy'n dymuno rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth a sut y dylai swyddogion y Cyngor ymateb i hynny. Mae'r Cynllun hwn yn darparu canllawiau ar y camau sydd i'w cymryd pan yr amheuir bod twyll yn digwydd neu pan ganfyddir twyll, ac mae'n ymdrin â materion megis: i bwy y dylid adrodd am y twyll, cyfrifoldeb am gamau gweithredu, pwy fydd yn ymchwilio i'r digwyddiad a sut y dylid ymdrin â'r gweithwyr sydd dan amheuaeth.

Mae'n hanfodol bwysig bod y Cynllun hwn yn cael ei ddilyn gan bob un sy'n berthnasol er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei thrin yn broffesiynol ac er mwyn sicrhau nad yw'r achos yn cael ei beryglu. Wrth ddefnyddio'r Cynllun, gallai'r Cyngor:

- atal colledion pellach,
- sefydlu a diogelu tystiolaeth angenrheidiol ar gyfer camau troseddol a chamau disgyblu,
- rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol, bwrdd ariannu a'r Heddlu,
- isafu'r colledion a'u hadfer,
- cymryd camau disgyblu yn erbyn y rhai sy'n ymwneud â'r digwyddiad,
- adolygu'r rhesymau pam fod hyn wedi digwydd, y mesurau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto a gweithredu camau angenrheidiol i gryfhau'r gweithdrefnau.

Yn ogystal, mae'r Cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod yr ymchwiliad yn cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn:

- Côd Ymddygiad Staff y Cyngor,
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor,
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor,
- Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor.

### Diffiniadau

Mae'r diffiniadau o "Dwyll", "Twyll Mewnol ac Allanol", "Twyll Budd-dal" a "Llygredigaeth" i gyd i'w cael yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth.

### Twyll Budd-dal

Nid yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i Dwyll Budd-dal (fel y'i diffinnir yn y Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth), gan fod gweithdrefnau ar wahân yn bodoli ar gyfer hyn.

## 2. ADRODD AM AMHEUAETH O DWYLL

**Camau gweithredu gan Staff**

Gellir darganfod amheuaeth o dwyll mewn sawl ffordd. Dyma rai enghreifftiau:

- Aelod o staff y Cyngor, yn rhinwedd eu swydd, yn dod yn amheus o daflenni amser, ffurflenni costau teithio, tystysgrifau grant, anfonebau ac ati, sy'n cael eu cyflwyno er derbyn taliad.
- Aelod o staff y Cyngor yn dod yn amheus o weithgareddau un neu fwy o'u cydweithwyr.
- Anghysondebau sy'n cael eu darganfod gan archwiliwr mewnol neu allanol wrth wneud gwaith archwilio arferol.
- Aelod neu swyddog o'r Cyngor yn cael gwybod am yr amheuaeth o dwyll gan asiantaethau allanol neu aelodau o'r cyhoedd.

Ym mhob achos, mae'n bwysig bod staff yn teimlo eu bod yn gallu adrodd am eu pryderon a'u bod yn ymwybodol o sut y gallant wneud hynny. Bydd amheuaeth o dwyll yn cael ei drin yn ddifrifol a bydd yn cael ei adolygu a'i addasu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth.

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol bod y Côd Ymddygiad i Staff a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (y mae'r ddau'n rhan o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd) gyda'i gilydd yn gosod rhwymedigaeth ar yr holl staff i adrodd am amheuaeth o dwyll, llygredigaeth ac anghysondebau i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg:

> **Côd Ymddygiad Staff, Adran 9:** Os digwydd fod cyflogai cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r cyflogai roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio at y diben hwn.
>
> **Rheol Gweithdrefn Ariannol 12.9:** Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol y gall adrodd am yr amheuon hyn fod yn hynod boenus a thrawmatig (yn enwedig os yw'r person dan amheuaeth yn rheolwr llinell i'r aelod hwnnw o staff, neu'n gydweithiwr y mae'n gweithio ag ef/ â hi bob dydd, a / neu rannu swyddfa ag ef / â hi). O ganlyniad i hyn, mae nifer o fesurau yn eu lle er mwyn amddiffyn staff sy'n adrodd am bryderon dilys. Yn enwedig, mae'r Ddeddf Diogelu er Lles y Cyhoedd yn annog pobl i grybwyll pryderon am gamymddygiad yn y gweithle ac o gymorth i sicrhau bod sefydliadau yn ymateb trwy:

- ymdrin â'r neges yn hytrach na'r negesydd; a
- gwrthod y demtasiwn i guddio camymddygiad difrifol.

Ceir rhagor o ganllawiau ym Mholisi Canu'r Gloch y Cyngor, sy'n amlinellu'r ffordd y gall unrhyw aelod o staff adrodd am unrhyw amheuaeth sydd ganddynt. Fodd bynnag, mae'r Polisi Canu'r Gloch yn ymdrin ag amrediad llawer ehangach o gamymddygiad na dim ond twyll, llygredigaeth neu anghysondebau ariannol. Rhaid ymdrin â'r materion eraill hyn yn ôl eu haeddiant a'u hadrodd i'r man mwyaf priodol – fel arfer i'r Uwch Reolwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Bydd angen trin unrhyw bryderon sydd gan aelod o staff, ynghyd â thrafodaethau cychwynnol, yn sensitif ac yn hollol gyfrinachol ac ni ddylai unrhyw un fod ag ofn crybwyll eu pryderon. Efallai y bydd eglurhad diniwed i'r hyn y mae'r aelod o staff yn bryderus yn ei gylch – os fydd hyn yn wir, yna ni fydd angen cymryd camau pellach ac o leiaf y bydd y pryderon wedi cael eu lleisio.

Efallai y bydd aelod o staff yn dewis adrodd am eu pryderon yn ddienw a pherchir hynny. Dylid nodi, os bydd yr adroddiad yn awgrymu bod gweithgaredd anghyfreithlon wedi digwydd a bod yr achos am gael ei ddilyn gan yr Heddlu, bydd angen gwybod pwy yw'r unigolyn sydd wedi adrodd am y manylion yn ddiweddarach os yw'r achos troseddol am gael ei ddilyn yn effeithiol - mae'n well gwybod pwy sydd wedi adrodd am ddigwyddiadau a bydd o gymorth gyda'r ymchwiliad.

**Os daw unrhyw un yn ymwybodol o amheuaeth o dwyll neu anghysondeb, dylent nodi eu pryderon ar bapur cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib. Dylent wneud nodyn o'r holl fanylion perthnasol, megis beth a ddywedwyd yn ystod sgyrsiau dros y ffôn neu sgyrsiau eraill, y dyddiad, yr amser ac enwau unrhyw rai sydd yn ymwneud â'r digwyddiad. Dylent adrodd am y mater yn syth i naill ai:**

- **eu Rheolwr Llinell, Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr Strategol fydd yna'n cysylltu â'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, neu**
- **yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.**

Pan fyddant yn adrodd am eu pryderon, dylai staff drefnu i roi unrhyw nodiadau y maent wedi'u cymryd ac unrhyw dystiolaeth a gasglwyd, i'r archwiliwr priodol. Cedwir cyfrinachedd i bawb o ran yr adroddiadau a wnaed nad oes modd eu profi yn dilyn yr ymchwiliad.

Ni ddylai staff wneud yr hyn a ganlyn:

- cysylltu â'r sawl sy'n cael ei amau o fod yn twyllo mewn ymdrech i geisio sefydlu'r ffeithiau neu fynnu gwneud iawn,
- trafod manylion yr achos, amheuon neu honiadau gydag unrhyw un y tu allan i Gyngor Gwynedd (yn cynnwys y Wasg) oni bai bod yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg wedi gofyn iddynt wneud hynny,
- trafod yr achos gydag unrhyw un yn y Cyngor ac eithrio eu Rheolwr Llinell eu hunain, Pennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Strategol, Pennaeth Cyllid neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg,
- ceisio cynnal ymchwiliadau neu gyfweliadau neu gwestiynu unrhyw un eu hunain, oni bai bod yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg wedi gofyn iddynt wneud hynny (yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol).

**Camau Gweithredu gan Reolwyr**

Os yw rheolwyr yn credu bod ganddynt reswm i amau bod twyll neu lygredigaeth yn digwydd yn eu maes gwaith, dylent wneud yr hyn a ganlyn:

- Gwrando ar bryderon staff ac ymdrin â phob adroddiad a dderbynnir o ddifrif ac yn sensitif, gan sicrhau y rhoddir gwrandawiad teg i holl bryderon staff. Yn ogystal, dylai rheolwyr sicrhau staff na fyddent yn dioddef yn sgil adrodd am eu pryderon.
- Cael cymaint o wybodaeth â phosib gan yr aelod o staff, yn cynnwys unrhyw nodiadau a thystiolaeth sydd ganddynt a allai gefnogi'r honiad. Ni ddylai rheolwyr amharu ag unrhyw dystiolaeth a dylid sicrhau ei fod yn cael ei gadw mewn man diogel.
- Adrodd am y mater yn syth i'r Pennaeth Cyllid a / neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Ni ddylent geisio cynnal ymchwiliad eu hunain na gofyn i unigolyn gael rhagor o wybodaeth mewn dull cudd, gan y gallai hyn beryglu'r dystiolaeth (gan atal camau disgyblu priodol neu gamau troseddol yn y man).

**Camau Gweithredu gan Archwilwyr**

Os fydd Archwilwyr Mewnol y Cyngor yn darganfod yr hyn y credant ei fod yn dwyll, yn llygredigaeth neu'n ymddygiad amhriodol yn ystod archwiliad, rhaid iddynt ddiogelu'r holl dystiolaeth a gwneud nodiadau manwl o'r holl dystiolaeth a gesglir. Yna, dylent adrodd am eu amheuon yn syth i'r arweinydd tîm, a ddylai yna roi gwybod i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg cyn gynted ag y bo modd. Bydd y broses ymchwilio (rhan 4 isod) yn digwydd yn dilyn hynny.

## 3. HONIADAU MALEISUS

Os gwneir honiad disylwedd, maleisus neu er budd personol, gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn y person sy'n gwneud yr honiad.

## 4. Y BROSES YMCHWILIO

Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am symbylu a goruchwylio'r holl ymchwiliadau twyll. Bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'i Gynllun Ymchwilio Twyll er mwyn sicrhau bod pob ymchwiliad yn cydymffurfio â'r un safon ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dan Bolisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor (Rhan 7.3 yr Amodau Gwaith Lleol), bydd gofyn ymchwilio i unrhyw honiad o dorri rheolau a safonau'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd, oni bai bod y rheolwr llinell o'r farn bod y drosedd honedig yn un fân. Fodd bynnag, yn unol â'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-lygredigaeth, ni ddylai unrhyw reolwr ystyried honiadau o dwyll, llygredigaeth neu anghysondebau ariannol fel "mân droseddau", felly, cynhelir ymchwiliad ym mhob achos. Mae'r Polisi a'r Gweithdrefnau Disgyblu yn nodi'r hyn a ganlyn fel enghreifftiau o weithrediadau sy'n cael eu hystyried fel camymddygiad llwyr:

- lladrata oddi wrth y Cyngor neu unrhyw un o gleientiaid y Cyngor,
- twyll difrifol a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn anaddas i weithio i'r Cyngor,
- rhoi gwybodaeth gelwyddog ar gofnodiadau yn fwriadol, neu
- torri difrifol ar ymddiriedaeth.

Yn ogystal, fel yr amlinellir yn y Strategaeth, nid oes rhaid i fudd neu golled gael eu gwireddu – mae bwriad i dwyllo yn ddigon i arwain at ymchwiliad.

<u>**Nid**</u> yw'r broses ymchwilio yn rhan o'r broses ddisgyblu; yr unig beth yw hyn yw ffordd o gasglu'r holl ffeithiau sy'n ymwneud â'r honiadau a mynegir hyn yn glir wrth unrhyw aelod o staff sy'n cynorthwyo'r Cyngor gydag ymchwiliad o'r math hwn.

Ni ddatgelir canlyniadau'r ymchwiliadau i unrhyw un, na'u trafod gyda hwy, ac eithrio'r rhai sydd wir angen gwybod. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi difrodi enw da'r rhai sydd yn cael eu hamau ond sy'n cael eu canfod yn ddieuog o ymddygiad anghyfiawn, ac er mwyn gwarchod y Cyngor rhag atebolrwydd sifil posib.

Mewn achosion pan fo unigolyn yn cael ei amau o dwyll ond pan nad yw'r ymchwiliad sy'n dilyn yn cefnogi hynny, mae'n bwysig bod y posibilrwydd o ddifrodi enw da'r unigolyn yn cael ei gadw i'r lleiafswm. Bydd y person a adroddodd am yr amheuaeth o dwyll neu anghysondeb yn y lle cyntaf yn cael gwybod nad yw'r ymchwiliad wedi profi unrhyw ymddygiad anghyfiawn.

Cynhelir unrhyw weithgarwch ymchwilio angenrheidiol heb ystyried perthynas unrhyw unigolyn â'r Cyngor, eu swydd na hyd eu gwasanaeth.

Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r ffeithiau a ganfyddir fel rhan o'r ymchwiliad. Bydd yr adroddiad yn osgoi unrhyw ddyfalu ac ni wneir unrhyw ddatganiad na ellir ei gefnogi gyda ffeithiau.

## 5. Y CAMAU I'W CYMRYD

Pan fo tystiolaeth yn cefnogi'r honiad o dwyll neu lygredigaeth, ystyrir dilyn trywydd triphlyg ("*triple-tracking*") fel rhan o'r ymchwiliad. Hynny yw, a ddylai'r camau i'w cymryd fod yn rhai troseddol, sifil, disgyblu neu'n gyfuniad o'r tri.

**Camau Disgyblu**

Pan fo tystiolaeth o dwyll neu lygredigaeth wedi'i chasglu, bydd yr adroddiad Archwilio Mewnol a ddisgrifiwyd uchod yn cael ei ddefnyddio bob amser fel cofnod ffurfiol o ymchwiliad fel y'i disgrifir ym Mholisi a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. Cynhelir gweithdrefnau Disgyblu gan y rheolwr llinell perthnasol, a fydd yn defnyddio adroddiad ymchwilio Archwilio Mewnol fel tystiolaeth bwysig; dylai'r archwiliwr(wyr) sy'n ymchwilio fod yn bresennol i gyflwyno'r dystiolaeth mewn gwrandawiad disgyblu. Fodd bynnag, ni fydd archwilwyr Archwilio Mewnol yn ffurfio rhan o banel disgyblu.

**Camau Troseddol**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, os yw'r Swyddog Monitro wrth ystyried adroddiad ymchwilio Archwilio Mewnol, o'r farn bod y gyfraith wedi'i thorri, bydd y mater yn cael ei adrodd i'r Heddlu er ymchwiliad pellach a hynny ar ddisgresiwn y Pennaeth Cyllid.

Os oes aelod o staff yn ymwneud â'r achos, bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd ar frys yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor pa un a yw'r mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu ai peidio.

Os fydd yr Heddlu'n penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad ffurfiol, disgwylir i bob aelod o staff gydymffurfio'n llawn ag unrhyw geisiadau neu argymhellion sy'n dilyn. Bydd yr holl gyswllt gyda'r Heddlu yn dilyn eu cyswllt cyntaf, yn digwydd fel arfer trwy Archwilio Mewnol.

**Camau Sifil**

Pan fo'r Cyngor wedi dioddef colled, ceisir gwneud iawn am unrhyw fudd neu fantais a gafwyd a cheisir adennill costau gan yr unigolyn(ion) oedd yn gyfrifol am y twyll.

Fel cam cyntaf, bydd yr unigolyn dan sylw yn derbyn cais i wneud iawn am y golled. Efallai y bydd yn briodol ystyried adennill y golled o unrhyw arian sy'n ddyledus i'r unigolyn wrth ei ddiswyddo (os yw'r sawl sy'n gyfrifol am y twyll yn aelod o staff). Dylid ceisio cyngor gan y Pennaeth Cyllid a'r Adain Gyfreithiol cyn ceisio adennill y golled.

Pan fo aelod o staff yn aelod o gynllun pensiwn Cyngor Gwynedd, a'i fod yn euog o dwyll, gall y Cyngor adennill y golled o werth cyfalaf buddion cronnus yr unigolyn yn y Cynllun, sydd yna'n cael eu gostwng yn unol â'r cyngor a dderbynnir gan yr actwari.

Os na fydd unigolyn yn gwneud iawn am y golled, dylid ystyried cymryd camau sifil i adennill y golled, yn amodol ar y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd. Gan mai arian y trethdalwyr yw'r cronfeydd a gamddefnyddiwyd, gall yr adennill sifil fod yr un mor bwysig ag erlyniad llwyddiannus.

Gellir defnyddio datrysiadau sifil os fydd achos troseddol yn methu, neu os na fydd cyhuddiad troseddol yn cael ei ddilyn, oherwydd diffyg prawf.

Pan fetho popeth arall, os na chymerir camau datrys sifil yn sgil cyngor cyfreithiol, gellir defnyddio Polisi Yswiriant Gwarant Ffydd y Cyngor er mwyn adennill y colledion. Fodd bynnag, mewn achosion pan fo twyll wedi digwydd yn dilyn rheolaeth neu oruchwyliaeth benodol wael, efallai na ellir adennill y cyfanswm llawn. Ym mhob achos, dylid rhoi gwybod i'r Adain Yswiriant a Rheoli Risg yng nghamau cychwynnol yr ymchwiliad er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r hawliadau yswiriant mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd.

**Sancsiynau Paralel**

Nid oes rheswm cyfreithiol pam na ddylai'r tri math o gam y gellir eu cymryd gael eu cynnal ar yr un pryd neu groesi ei gilydd o leiaf. Yn gyffredinol, ni fydd y llysoedd yn rhoi blaenoriaeth awtomatig i achos troseddol. Ni ddylid gohirio camau eraill hyd nes diwedd y gwrandawiad troseddol oni bai bod gwir berygl – nid tybiaeth yn unig – y byddai datgelu'r amddiffyniad yn y camau sifil yn arwain at gamwedd bosib, neu'n gallu arwain at hynny (trwy, er enghraifft, alluogi tystion yr erlyniad i baratoi tystiolaeth ffug). Ar gyfer cyfraith achosion, gweler *Jefferson v Bhetcha [1979] 1 WLR 898, 904* ac *R v BBC, ex p. Lavelle [1983] 1 WLR 23, 39*.

**6. DYSGU O'N PROFIADAU**

Pan fo twyll wedi digwydd, rhaid i'r rheolwyr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau na fydd twyll tebyg yn digwydd eto. Ble bo'n briodol, bydd Archwilio Mewnol yn cyhoeddi adroddiad "gwersi a ddysgwyd" er mwyn amlygu ble y gwelwyd diffyg goruchwylio, neu reolaeth wedi torri i lawr / diffyg rheolaeth. Bydd adroddiadau o'r fath yn darparu argymhellion er mwyn osgoi digwyddiadau pellach, a hynny yn yr ardal benodol ble y digwyddodd y twyll a, ble bo'n briodol, o fewn cyd-destun ehangach gweinyddiaeth y Cyngor.